

Llais Ogwan

PAPUR BRO DYFFRYN OGWEN

Mawrth 2012

Rhif 420

50c

Diogelwch sydd Bwysicaf



Y Cyng. John Wyn Williams efo Lucy Warren ac Iwan Thomas, cynrychiolwyr Parchu Pentir

MAE nifer o drigolion lleol a ddaeth at ei gilydd i ffurfio grŵp Parchu Pentir yn sgil menter Trefi Taclus wedi cyflwyno deiseb efo 350 o enwau arni i Adran Priffyrdd y cyngor sir yn galw am gyfyngu'r cyflymdra i 40 milltir yr awr ar y rhan o'r A4244 sy'n mynd trwy Bentir.

Mynegwyd pryder gan drigolion Rhydygroes, Pentir a Rhiwlas ers tro ynghylch y peryglon ar y rhan o'r ffordd o dro Tan-y-foel cyn cyrraedd Rhydygroes hyd at yr ochr draw i dro Rhiwlas. Mae'r rhan hon tua 1.2 cilometr o hyd, ac arni mae pedair cyffordd, chwe man croesi i gerddwyr, pedwar mynediad i dai preifat, un safle bws, a saith mynediad i gaeau. Mae trigolion yr ardal wedi bod yn pwysu am newid ers dwy flynedd bellach, ac yn ddiweddar bu cynrychiolwyr Parchu Pentir a'r cynghorydd sir sy'n cynrychioli ardal Pentir, John Wyn Williams, yn cyfarfod swyddogion yr Adran Priffyrdd. Cyflwynwyd gwybodaeth a thystiolaeth i'r swyddogion, sy'n dangos peryglon difrifol y sefyllfa bresennol sy'n caniatáu cerbydau i yrru ar gyflymder o 60 milltir yr awr.

Meddai llefarydd ar ran Parchu Pentir: "Rydym wedi cyflwyno corff sylweddol o dystiolaeth sy'n dangos pa mor beryglus yw'r rhan hon o'r A4244 o dan yr amodau presennol. Mae nifer o ddigwyddiadau peryglus ar y rhan yma o'r briffordd, a hynny gyda gyrwyr sy'n ceisio ymuno neu

adael y lôn ar y cyffyrdd, a cherddwyr, beicwyr a marchogion sy'n defnyddio ochrau'r lôn neu'n ceisio croesi'r ffordd. Mae gwir bryder yn yr ardal am y sefyllfa hon, ac rydym yn awyddus i ddatgan y pryder hwn mewn modd adeiladol er mwyn ceisio symud ymlaen i ddatrys y broblem. Credwn fod diogelwch y cyhoedd yn flaenoriaeth."

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiweddar wedi gofyn i'r holl awdurdodau priffyrdd adolygu cyfyngiadau cyflymder lleol ac i wneud unrhyw newidiadau erbyn Rhagfyr 2014. Rhaid i gyfyngiadau cyflymder fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac ar ddadansoddiad o gostau a buddion trwy asesu nifer o ffactorau.

Meddai'r Cynghorydd Plaid Cymru John Wyn Williams: "Mae criw Parchu Pentir wedi bod yn gweithio'n ddiwyd yn casglu tystiolaeth am y broblem hon yn yr ardal. Mae cyflymder y drafnidiaeth ar y ffordd yn achosi pryder i'r gymuned gyfan, gan ei bod hi'n beryglus i drigolion gerdded a chyfarfod ar y rhan hon o'r ffordd, ac mae hynny'n effeithio ar fywyd y gymdogaeth. Mae sicrhau bod pobl yr ardal yn gallu mynd ynglŷn â'u pethau yn hwylus a diogel yn bwysig i bob un ohonom, felly ein gobaith yw gallu cydweithio â'r awdurdodau priodol trwy gyflwyno tystiolaeth sy'n dangos yn glir yr anawsterau presennol. Rwy'n ddiolchgar i griw Parchu Pentir am eu gwaith, ac yn falch o gydweithio â nhw er lles yr ardal gyfan."

Mae adroddiad o'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Cyngor ar gael ar y wefan www.rhiwen.com

Llais Ogwan

PANEL GOLYGYDDOL

Derfel Roberts	☎ 600965
hylaw@btinternet.com	
Ieuan Wyn	☎ 600297
cylch@tiscali.co.uk	
Lowri Roberts	☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com	
Dewi Llewelyn Siôn	☎ 600274
dewision@btinternet.com	
Fiona Cadwaladr Owen	☎ 601592
Fiona@fowen.wanadoo.co.uk	
Siân Esmor Rees	☎ 600427
sian_esmor@btinternet.com	
Emlyn Evans	☎ 600501
emlynevans@live.co.uk	
Neville Hughes	☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com	
Dewi A Morgan	☎ 602440
dewimorgan@fsmail.net	
Dafydd Fôn Williams	☎ 601583
dafydd@gerlison.wanadoo.co.uk	
Walter W Williams	☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk	

SWYDDOGION

Cadeirydd:
André Lomozik, Zakopane,
7 Rhos-y-Coed, Bethesda, Bangor,
Gwynedd LL57 3NW ☎ 602117

Trefnydd Hysbysebion:
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH ☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:
Godfrey Northam, 4 Llwyn Bedw, Rachub,
Llanllechid LL57 3EZ ☎ 600872

Y Llais Drwy'r Post:
Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN ☎ 600184

Golygydd y Mis

Golygydd y mis hwn oedd Ieuan Wyn.
Golygydd mis Ebrill fydd Derfel Roberts,
Llys Artro, 84 Ffordd Carneddi, Bethesda,
LL57 3SG. 01248 600965
hylaw@btinternet.com

Pob deunydd i law erbyn dydd Mercher,
4 Ebrill, os gwelwch yn dda. Plygu nos
lau, 19 Ebrill yng Nghanolfan Cefnfaes am
6.45.

Cydnabyddir
Cefnogaeth



BWRDD YR IAITH
GYMRAEG

DYDDIADUR Y DYFFRYN

Mis Mawrth

- 17 Bore Coffi Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
Neuadd Ogwen 10.00 – 12.00
- 19 Te Bach .Festri Carmel Llanllechid.
2.30 – 4.00
- 21 Cymdeithas Lenyddol Gofalaeth Bro
Dyffryn Ogwen. Ysgol Llanllechid am
6.30
- 24 Bore Coffi Llais Ogwan. Neuadd
Ogwen 10.00 – 12.00
- 27 Plaid Cymru, Cangen Dyffryn Ogwen.
Cefnfaes am 7 00
- 29 Merched y Wawr Bethesda. Medwyn
Williams. Cefnfaes am 7.00
- 31 Bore Coffi Samariaid. Neuadd Ogwen
10.00 – 12.00

Mis Ebrill

- 01 Cymanfa Ganu. Capel Bethlehem,
Talybont, am 7.30.
- 07 Bore Coffi. Apel Eist. Yr Urdd Eryri
2012. Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00
- 14 Bore Coffi Cyfeillion Ysbyty
Gwynedd. Neuadd Ogwen. 10.00 –
12.00
- 14 Marchnad Cynnyrch Lleol. Llys
Dafydd. 10.00 – 2.00
- 21 Bore Coffi Ymchwil Cancr. Neuadd
Ogwen. 10.00 – 12.00
- 26 Merched y Wawr Bethesda. Brethyn
Cartref. Cefnfaes am 7.
- 28 Bore Coffi Capel Jerusalem. Neuadd
Ogwen. 10.00 – 12.00

Archebu Llais Ogwan drwy'r Post

£18 Gwledydd Prydain
£27 Ewrop
£36 Gweddill y Byd



Owen G. Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

- Gwobrau Mis Mawrth**
- £30 (130) Wynne ap Iorwerth,
Glanrafon Bach, Mynydd Llandygai
- £20 (191) Mr Ray Davies,
9 Heol Ifor, Caerdydd
- £10 (38) Beryl Wynne Williams,
Talgarnedd, Sgwâr Buddug,
Bethesda
- £5 (110) Dafydd Owen,
6 Lôn Groes, Rachub

Rhoddion i'r Llais

- £20.00 Er cof am Mr a Mrs J.H Pritchard,
Tŷ Capel, Brynteg, Bethesda
- £ 5.00 Mr a Mrs Nigel Fisher,
1 Caeau Gleision, Rhiwlas
- £20.00 Er cof am y Cynghorydd John Robert
Jones, 67 Bro Emrys, Talybont, a fu
farw ar 22 Mawrth 2011, oddi wrth
Myfanwy a'r teulu gyda diolch i
bawb am fod mor garedig.
- £ 5.00 Mrs Betty Owen, 12 Glanffrydlas,
Bethesda
- £20.00 Er cof annwyl am ben-blwydd Bob
Parry, 43 Adwy'r Nant, Bethesda (18
Mawrth). "Hiraeth mawr bob dydd
amdanat" – Ann a'r teulu i gyd.
- £20.00 Er cof am Leslie Williams,
17 Stad Coetmor, Bethesda, oddi wrth
Vera a'r teulu
- £20.00 Er hiraethus gof am ben-blwydd Wil,
13 Gwernydd, Gerlan, oddi wrth
Myfanwy, Marian, Gwenda a'r teulu i
gyd.
- £10.00 Er cof am Gwilym Williams,
Lôn Groes, Rachub
- £11.00 Mrs Eurwen Griffith, 5 Rhos Mostyn,
Bethesda
- £50.00 Er cof am y diweddar Edward Henry
Evans, Plas Ogwen, Bethesda, oddi
wrth Jac Evans a'r teulu.
- £14.50 Andrew Speddy a'r teulu, Pant Glas,
Bethesda
- £19.50 Deri a Megan Tomos, Sychnant,
Llanllechid
- £ 4.50 Di-enw, Rhiwlas
- £22.00 Di-enw, Llandygai
- £4.00 Di-enw, Bryn, Llandygai.

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru



Llais Ogwan ar Dâp

Os gwyddoch am rywun sy'n cael
trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn
copi o'r Llais ar gasét bob mis,
cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

Cyhoeddir gan Bwyllgor Llais Ogwan

Cysodwyd gan **Tasg**,
Gorffwysfa, Sling, Tregarth
LL57 4RJ ☎ 07902 362 213
post@tasg.co.uk

Argraffwyd gan Wasg Ffrancon,
Dôl Ddafydd, Bethesda LL57 3LY
☎ 01248 601669

Llythyrau

**Tyddyn Dicwm,
Pont y Pandy**

Annwyl Ddarllenwyr,

Wedi cyfnod o dros ddeng mlynedd ar hugain fel Cynghorydd dros Blaid Cymru yn ardaloedd Llandygai a Thregarth, rwyf wedi penderfynu peidio â chynnig fy hun fel ymgeisydd gogyfer etholiadau mis Mai.

Carwn ddiolch i'm cyd-gynghorwyr o bob plaid am eu cyfeillgarwch a'u cydweithrediad, ac yn arbennig i'r clerc, Mr Gwilym Evans, am ei gymorth a'i gyngor doeth yn ystod fy mhedwar cyfnod fel cadeirydd.

Credaf inni gyflawni llawer i wella adnoddau yn ein pentrefi. Bydd y Lôn Las, pan fydd wedi ei chwblhau, yn denu llawer mwy o ymwelwyr i fwynhau prydferthwch y fro, a bu'r canolfannau cymdeithasol yn adnoddau pwysig i'n trigolion. Y gobaith yw y bydd sefydlu swyddfa ym Methesda i hwyluso a phrysuru gwasanaethau cyhoeddus yn gwella cyfleusterau yn y Dyffryn.

Dymunaf bob llwyddiant i'm holynydd i sedd Llandygai/Tregarth ac i'r Cyngor yn gyffredinol. Maent yn haeddu pob cefnogaeth gyda'u dyletswyddau.

**Yn gywir,
D. Wynn Williams**

**Cyngerdd i achub neu i gau
Rehoboth
ac i Goffau Merthyron Armenia
ar Nos Wener, 30ain o Fawrth ,
am 7 p.m.**

**yng Nghapel
Rehoboth,
Nant Peris, LL55 4UE**

gyda'r deuaud poblogaidd:

**Iona ac Andy
Seda Cox
(Wolverhampton)**

Mynediad am ddim ond gwneir casgliad
Manylion 07718982732

Siaradwyr gwadd :
Llysgennad Armenia ym
Mhrydain, Ei
Hardderchowgrwydd Karine
Kazinian;
Ei Ras yr Esgob Vahan, o'r
Eglwys Armenaidd yng
Ngwledydd Prydain ac Iwerddon;
Ara Krikorian, un o sefydlwyr
ORRAN.

Unrhyw elw at ORRAN, sy'n
helpu plant digartref yn Armenia
Gweddi dros Ferthyron Armenia

Annwyl Gyfeillion

Dymunaf estyn gwahoddiad i chi i ddigwyddiad unigryw at y 30ain o Fawrth yng Nghapel Rehoboth, Nant Peris am 7 p.m. Cyngerdd rhad ac am ddim fydd hwn i "Achub" neu i gau y capel, gydag Iona ac Andy yn perfformio. Fe wneir casgliad at elusen Orran sy'n helpu plant digartref yn Armenia.

Bydd Llysgennad Armenia yno gyda ni yn sôn am drafferthion Armenia, yn enwedig oherwydd y ffin gyda Thwrci sydd wedi ei gau ers ugain mlynedd. Bydd gweddi dros Ferthyron Armenia a'n Merthyron ninnau gan Esgob Vahan o'r Eglwys Armenaidd ym Mhrydain,

Pam bod cau Rehoboth yn rhywbeth anos ei stumogi na chau unrhyw gapel arall, meddych? Onid yma yng nghilfachau Eryri y collasom ein hannibyniaeth fel cenedl dros saith canrif yn ôl? Oni chofiw'n gamweddu'r fyddin Seisnig yn 1283 yn llosgi hen goedwig yr Wyddfa, llosgi Eglwys Beddgelert, hela y brodorion fel anifeiliaid a lladd tair mil o breswylwyr Eryri?

Teimlaf hefyd ein bod yn wynebu'r diwedd fel addoldy oherwydd bod rheolau'r Parc " Cenedlaethol" wedi hyrwyddo pobl i fyw mewn tai haf. Onid yw'n bryd i ni fynnu fwy o annibyniaeth fel y gallai'r Cynulliad neu'r Cyngor Sir brynu'r ail-gartrefi hyn drwy orfodaeth?

Yn dilyn y Cyngerdd bydd cyfarfod o'r "Ymgyrch dros Annibyniaeth i Gymru" yn y festri.

**Yn ddiffuant,
Eilian Williams
7 Nant Ffynnon, Nant Peris,
Llanberis, Caernarfon, Gwynedd
eilian@talktalk.net (Manylion:
07718982732)**

Mantell Gwynedd

Annwyl Ddarllenwyr,

Y llynedd, prynodd Mantell Gwynedd uned symudol fel adnodd ar gyfer mynd â gwybodaeth am y trydydd sector a'r gwasanaethau a gynigir gan grwpiau gwirfoddol a chymunedol i ardaloedd gwledig yng Ngwynedd.

Er mwyn lleihau cost llogi'r Uned i fudiadau, rydym yn awyddus i recriwtio gwirfoddolwyr a fyddai'n fodlon gyrru'r Uned a helpu gyda rhannu gwybodaeth, ymholiadau a gwneud ambell banded!

Os oes gennych ddiddordeb mewn gwirfoddoli, yna cysylltwch â Medwyn Williams ym Mantell Gwynedd, Caernarfon 01286 672 626 neu e-bostio:
medwyn@mantellgwynedd.com
neu
ymholiadau@mantellgwynedd.com

**Llawer o ddiolch,
Medwyn Williams
Swyddog Cymunedau Mentrus**

Cangen Plaid Cymru Dyffryn Ogwen

Cynhaliwyd ein Cyfarfod Blynyddol yn Neuadd Ogwen ar nos Lun, 27 Chwefror.

Yn ei adroddiad soniodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Dafydd Meurig, am yr holl brysurdeb a'r llwyddiannau a fu yn ystod y llynedd. Diolchodd i'r aelodau am eu gwaith caled a fu'n gymorth i ail-ethol Alun Ffred Jones i'r Cynulliad Cenedlaethol, a hefyd i ennill y Refferendwm dros ragor o bwerau i'r Cynulliad.

Roedd yn ddiolchgar iawn i bawb am eu cefnogaeth iddo pan enillodd sedd Arllechwedd yn Is- Etholiad Cyngor Gwynedd ym mis Mehefin.

Pleser hefyd, meddai, oedd bod yn y Gynhadledd yn Llandudno ym mis Medi pryd y gwobrwywyd y Cynghorydd Dafydd Owen am ei holl waith diflino i'r Blaid.

Soniodd yr Ysgrifennydd, Mrs. Ceinwen Evans, am amryw o faterion a godwyd yn ystod cyfarfodydd misol y Gangen. Dywedodd fod modd cael y maen i'r wal a chael atebion boddhaol i wahanol broblemau drwy lythyru a chwyno a phwyso ar yr awdurdodau perthnasol yn enw'r Gangen.

Pwysleisiodd, hefyd, werth a phwysigrwydd cymorthfeydd Alun Ffred Jones AC a Hywel Williams AS, a oedd yn rhoi cyfle i bobl y Dyffryn ddod i fynegi eu pryderon. Diolchwyd i'r Ysgrifennydd am ei gwaith dros y chwe blynedd diwethaf.

Etholwyd y swyddogion canlynol ar gyfer 2012:

Cadeirydd	Dr Paul Rowlinson
Is Gadeirydd	Y Cynghorydd Rheinallt Puw
Trysorydd	Y Cynghorydd Neville Hughes
Ysgrifennydd	Y Cynghorydd Mary Jones

Ein siaradwr gwadd eleni oedd Llŷr Huws Gruffudd AC. Wrth ei gyflwyno atgoffodd Dr Paul Rowlinson yr aelodau mai yma fel ymgeisydd y bu Llŷr y llynedd ac mai baint a phleser oedd cael ei groesawu bellach fel aelod etholedig Rhanbarth Gogledd Cymru yn y Cynulliad. Yn ôl y disgwyl, cafwyd anerchiad rhagorol ganddo ac fe roddodd fraslun i ni o'i fisoedd cyntaf yn y Cynulliad. Ef yw llefarydd Plaid Cymru ar Faterion Gwledig ac mae hefyd yn aelod o Bwyllgor yr Amgylchedd.

Roedd yn ddiddorol clywed sut mae pethau'n gweithio yn y Cynulliad, yn arbennig felly pan eglurodd sut y dewisir Aelodau i ofyn cwestiwn yn ystod sesiwn holi'r Prif Weinidog.

Ar ddiwedd y cyfarfod cawsom gyfle i sgwrsio'n anffurfiol hefo Llŷr dros banded.



(O'r chwith) Neville Hughes, Dafydd Meurig, Mary Jones, Llŷr Huws Gruffydd, Paul Rowlinson, Ceinwen Evans, Rheinallt Puw.

Bethesda

Llên Ogwen,
Stryd Fawr, Bethesda
☎ 600431

John Wyn Jones,
Siop W E Jones
(Siop John), Rhes Fictoria
(Stryd Fawr), Bethesda
☎ 600251

Fiona Cadwaladr Owen,
Bryn Meurig Bach,
Coed y Parc, Bethesda,
LL57 4YW ☎ 601592

Joe Hughes,
Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas,
Bethesda ☎ 601902

Diolch

Dymuna Ellis Thomas, Abercaseg, ddiolch o waelod calon i deulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd, yn gardiau, anrhegion a chyfarchion a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 65 oed yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn i bawb!

Ysbyty

Cofion cynnes a gwellhad buan i'r rhai a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar:

Mrs Ettie Evans, Glanffrydlas; Mr Albert Williams, Glanffrydlas; Mrs Rene Parry, Maesygarneidd; Mrs Elsie Evans, Garneddwen; Sioned Cross, Ffordd Ffrydlas; Mr Paul A. Jones, Bryn Caseg; Cian Rees, mab Paul ac Eleri, Adwy'r Nant; Mr Bert Hughes, Stryd John; Mr Percy Parry, Erw Las; Mrs Helen W. Evans, Erw Las.

Diolch

Carai Ettie Evans, Glanffrydlas, ddiolch i deulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd tuag ati mewn ymweliadau a galwadau ffôn ar ôl iddi dderbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Diolch o galon i bawb.

Gwerthfawrogiad

Dymuna Joe ac Ettie Evans, Glanffrydlas, ddiolch o galon i deulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli brawd, sef Eddie Evans, Plas Ogwen, a fu farw ar y pedwerydd o Chwefror 2012.

Diolch hefyd i holl staff cartref Plas Ogwen am y caredigrwydd a'r gofal a gafodd Eddie yn ystod yr holl flynyddoedd y bu'n preswyllo yno, i'r Parchedigion Geraint S. Hughes a Dafydd Coetmor Williams am y gwasanaeth urddasol yn yr amlogfa, i Mr Wyn Williams am gyfeilio ac i Mr Stephen Jones am y trefniadau trylwyr. Diolch yn fawr.

Gair o ddiolch

Dymuna Mrs Eirian Owen a'r teulu, 2 Glanogwen, ddiolch o galon i'r teulu, cyfeillion a

Capel Bethania

Cynhelir yr oedfaon ar y Sul cyntaf, a'r trydydd Sul o'r mis am 5.30 yh.

18 Mawrth: Parchedig Gwynfor Williams

1 Ebrill: Mr Thomas Alun Williams

15 Ebrill: Parchedig Gwynfor Williams

Oedfaon am 5.30
Croeso Cynnes i Bawb

chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth o golli Deiniol, priod, tad a thaid annwyl. Diolch am yr holl gardiau a'r rhoddion tuag at Ymchwil Cancr. Diolch i holl staff Meddygfa'r Hen Orsaf, i'r Parchedig Dewi T. Morris am arwain y gwasanaeth ddydd yr angladd, ac yn olaf i Mr Steven Jones am drefnu popeth mor barchus a thawel.

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at Mr a Mrs Dennis Dart a'r teulu, Rhos y Nant, yn eu profedigaeth o golli brawd – Mr Gareth Dart, Bangor, gynt o Lanllechid.

Marwolaeth

Ar 4 Chwefror yn yr ysbyty bu farw Mr Edward Henry Evans (Eddie) o Blas Ogwen, gynt o Glasinfryn, yn 93 oed. Priod annwyl y ddiweddar Mrs Ciss Evans, brawd a brawd yng nghyfraith i Joe ac Ettie Evans, Glanffrydlas a brawd y diweddar Albert, Gwilym, Twm, Emrys a Vera ac ewythr hoffus. Bu ei angladd ddydd Iau, 9 Chwefror, gyda gwasanaeth yn Amlogfa Bangor dan arweiniad ei weinidog y Parchedig Geraint S.R. Hughes gyda Mr Wyn Williams wrth yr organ. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd yn eich colled.

Yn Ysbyty Eryri ar 6 Chwefror bu farw Mrs Olwen Mair Williams, 50 Glanogwen, yn 82 oed. Priod y diweddar Mr Jesse Williams a mam a mam yng nghyfraith Carol a Dewi, nain hoffus Llinos a Trystan; Manon ac Adrian, a hen nain Leusa a Rhyddid. Roedd yn aelod o Glwb y Gerlan, clwb henoed Rachub a Gorffwysfan. Roedd hefyd yn aelod o Gapel Jerusalem ac yno y bu ei hangladd fore Gwener, 10 Chwefror ac yna ym mynwent Eglwys Coetmor. Gwasanaethwyd gan ei gweinidog y Parchedig Geraint S. R. Hughes a'r Parchedig John Owen. Cafwyd coffad i nain gan Manon a Trystan, gyda Mrs Menai Williams wrth yr organ. Cydymdeimlwn â chwi Carol a'r teulu i gyd yn eich colled fawr.

Ar 29 Chwefror yng Nghartref Cerrig yr Afon, bu farw Mrs Mary Davies, 20 Glanogwen yn 76 oed, priod y diweddar Mr Dennis Davies, mam annwyl Kevin, Mark, Malcolm a Keith. Mam yng nghyfraith Helen, Donna, Marta a Katrina, a nain a hen nain hoffus ac annwyl. Bu ei hangladd ddydd Llun, 5 Mawrth, gyda gwasanaeth a

Ymdeol wedi Gwasanaeth Gwerthfawr



Ar y dydd olaf o Fawrth bydd John a Mair yn ymdeol ac o'r herwydd bydd y siop yn cau. Bu'r busnes groser yn y teulu ers 1950, a chafwyd gwasanaeth gwerthfawr i'r gymdogaeth gydol y cyfnod, gyda'r siop yn fan cyfarfod i nifer o'r trigolion. Dymunwn yn dda i'r ddau ar eu hymddeoliad.

chladdu yn Eglwys Coetmor.

Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu i gyd.

Cyfeillion Ysbyty Gwynedd

Fe fydd y cyfeillion yn cynnal bore coffi yn Neuadd Ogwen fore Sadwrn, 14 Ebrill o 10.00 hyd 12.00, ac yna ar 18 Mehefin fe fydd diwrnod agored yng nghartref Eira a Joe o 10.00 yb hyd 10.00 yh. Croeso.

Meithrinfa Ogwen Cyf.

Llongyfarchiadau i Anti Jade a'i phartner Michael o Glwb ar ôl Ysgol Lanllechid ar enedigaeth mab, Jac Wayne Sherlock Hughes ar 26 Ionawr. Pob lwc i chi fel teulu.

Mae diwrnod agored yma ddydd Sadwrn, 31 Mawrth 10am – 1pm. Mae Pepa Pinc yn dod i weld y plant a bydd consuriwr yma hefyd. Croeso cynnes i bawb – dewch am baned a chacen.

Bu Linda Pragnell ac Eirian Alford yma ddydd Iau, 23 Chwefror i alluogi'r plant i ymuno yn y Cynllun Gwên. Fe gafodd pawb hwyl hefo Dewi y pyped. Diolch i'r ddwy ohonoch.

Priodas Aur

Llongyfarchiadau i mam a dad (Helen ac Elfed Jones) ar achlysur hapus o ddatlu eu priodas aur ar 17 Mawrth. Cariad mawr oddi wrth Beth, Meuryn a Tara.

Priodas Aur

Llongyfarchiadau i mam a dad (Alan ac Alwenna Puw) ar achlysur hapus o ddatlu eu priodas aur ar 21 Ebrill. Cariad mawr oddi wrth Meuryn, Beth a Tara.

Diolch

Hoffwn ar ran Eglwys Glanogwen a Lanllechid ddiolch yn fawr i bawb am eu gwaith a chefnogaeth ar gyfer y bore coffi a gynhaliwyd yn Neuadd Ogwen fore Sadwrn, 18 Chwefror. Diolch yn fawr i bawb, M. Jones (ysgrifennydd).

Diolch

Dymuna Mrs Hilda Campell, Erw Las, ddiolch i bawb am y galwadau a'r dymuniadau da a gafodd ar ôl ei thriniaeth.

Diolch

Dymuna Caryl a John, merch a mab yng nghyfraith, Mrs Elizabeth Pritchard, Tŷ Capel, Brynteg, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth ddiweddar o golli mam annwyl, Elizabeth Pritchard (Ciss).

Diolch hefyd am y rhoddion hael er cof am Ciss a dderbyniwyd tuag at Tŷ Gobaith.

Diolch arbennig i'r Parch. Olaf Davies a chyda chymorth Mr J.O. Roberts a Mrs Margaret wrth yr organ am eu gwasanaeth teilwng ac i Stephen Jones, ymgymerwr, am y trefniadau trylwyr. Derbyniodd Mrs Pritchard bob parch a gofal tyner a bonheddig tra'n cael gofal ym Mhlas Ogwen. Diolch i'r staff i gyd, hefyd yn yr un modd i staff a thim Ward Moelwyn, Ysbyty Gwynedd, Bangor.

Diolch

Dymuna teulu Gerallt Wyn Jones, Fferm Melin Coetmor ddiolch o galon am bob ymweliad, galwad a neges o gefnogaeth yn ystod gwaeledd Gerallt. Hefyd, hoffai Gerallt a'i deulu ddiolch yn fawr i holl drigolion Dyffryn Ogwen a thu hwnt am bob rhodd a chyfraniad tuag at Gronfa Gerallt; gyda diolch arbennig i Iain Buchanan am gydlynu'r gwaith.

Llongyfarchiadau

Cafodd Hedd Rhys, 5 Garneddwen, ei anrhydeddu yn ddiweddar gan Undeb Cenedlaethol y Ffermywyr (NFU). Mae'r wob yn cael ei chyflwyno yn flynyddol i ysgrifennydd sydd wedi cadw ac ennill aelodau. Daeth Hedd ar ben y rhestr drwy Gymru i gyd. Mae Hedd wedi bod yn

gweithio fel ysgrifennydd ac asiant yn swyddfa'r undeb yng Nghaernarfon ers tair blynedd. Llongyfarchiadau mawr i Hedd

Pen-blwydd Arbennig

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i John Adl, 36 Abercaseg ar ei ben-blwydd yn 50 mlwydd oed ar 23 Mawrth. Pen-blwydd hapus oddi wrth y teulu a'r ffrindiau i gyd.

90 mlwydd oed

Llongyfarchiadau calonnog i Mrs Betty Owen, 12 Glan Ffrydglas, ar ddathlu ei phen-blwydd arbennig ym mis Chwefror. Dymuniadau gorau i chi Bet!

Diolch

Dymuna Carys Thomas, 4 Rhes Douglas, ddiolch am yr holl garedigrwydd a'r dymuniadau da a dderbyniodd pan oedd yn yr ysbyty ac ar ôl iddo ddod adref. Diolch yn fawr i bawb!

Mae Ann Thomas, 2 Abercaseg, eisiau diolch i aelodau'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd arbennig ym mis Ionawr. Diolch i'r gennod am y syrpreis!

Dymuna Mrs Betty Owen, 12 Glan Ffrydglas, ddiolch i bawb am yr holl gardiau, anrhegion a blodau a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 mlwydd oed ar 25 Chwefror. Mae wedi rhyfeddu at garedigrwydd pobl yr ardal tuag ati. Diolch yn arbennig i aelodau Capel Jerusalem!

Yr Eglwys Unedig

Gweinidog: Y Parchedig Geraint Hughes

Croesawn bedwar aelod ifanc newydd y mis hwn. Gobeithio y byddant yn derbyn ein croeso a'n llawenydd o'u gweld.

Da cael dweud fod rhai o'r cleifion yn gwella, ac anfonwn gofion at y rhai sydd yn dal yng nghanol triniaethau, yn disgwyl triniaeth neu yn gwella adref. Cofiw'n am y rhai mewn cartrefi gofal hefyd. Cawsom golled arall y mis yma ym marwolaeth Mrs Olwen Mair Williams, Glanogwen. Nid oedd yn dda ei hiechyd ers tro a bu farw rai wythnosau ar ôl cael strôc fawr. Gwraig ddistaw a bonheddig iawn oedd Mrs. Williams. Cydymdeimlwn gyda Carol ei merch a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth. Cydymdeimlwn y mis yma hefyd gyda Joe Evans sydd wedi colli brawd a hynny ar yr union bryd roedd Ettie yn yr ysbyty yn derbyn triniaeth. Roedd yn gryn fraw i Dennis a Ceri Dart pan fu farw brawd i Dennis yn sydyn iawn tra ar ymweliad â Llandudno. Colodd Megan Wyn Phillips chwaer yng nghyfraith o Sir Fôn hefyd. Cydymdeimlwn yn fawr gyda'r teuluoedd yma i gyd.

Llongyfarchiadau i Myfanwy Jones, Gerlan ar ddod yn hen nain unwaith eto; ganwyd merch fach i Gethin, ei hŵyr a'i briod, yn Leeds fore Sul.

Roedd Cyfarfod Gweddi ddechrau'r mis dan ofal Alwenna Puw gyda chymorth Olwen Williams, Elina Owen a Neville Hughes, a chafwyd gair gan y Gweinidog.

Y Parch. Marcus Robinson, Bethel oedd yn darlithio yn y Gymdeithas Lenyddol a gynhaliwyd yn Ffestri Jerusalem o dan lywyddiaeth y Gweinidog. Cawsom hanes Marcus ar ei deithiau fel Caplan yn y llynges. Cawsom lawer o wybodaeth, straeon difyr, rhai doniol, rhai yn ddwys, a llawer iawn o actio. Roedd ambell un yn teimlo'r llong yn ysgwyd wrth iddo gymryd arno ei fod ar y dec. Cafwyd paned gan rai o ferched y capel. Y cyfarfod nesaf fydd dathlu Gŵyl Ddewi yng nghwmni plant Ysgol Llanllechid ar 7 Mawrth.

Noson ddiddorol arall oedd noson Cymdeithas y Chwirydd o dan

lywyddiaeth Jean Ogwen Jones. Dymunwyd yn dda i'r cleifion ac anfon cofion at rai aelodau oedd ddim yn dda. Roedd pawb yn llawenhau fod Manon, merch Jean, wedi cael ei gwneud yn fetron yn Ysbyty Gwynedd. Y gŵr gwadd oedd Berwyn Owen, prif fferylllydd Ysbyty Gwynedd. Ei destun oedd Dyn y Pils, a chawsom dipyn o chwerthin wrth iddo drafod yn ei ffordd unigryw ei hun dabledi a meddyg-iniaethau. Jennie Jones ddiolchodd iddo ac i ferched y te sef Rita, Bessie, Doris a Dilys. Fe gynhelir y cyfarfod nesaf yn y Ffestri ar nos Iau, Mawrth 8 pryd y bydd Bleddyn a Maureen Hughes o Lanrwt yn dod i sôn am eu taith i Tsieina.

Cafwyd gwasanaeth arbennig iawn fore Sul, Chwefror 26 o dan ofal Mary Jones gyda'r mamau ifanc sydd yn gofalu am yr Ysgol Sul a rhai o'r plant hynaf (Aelodau Clwb Nos Fawrth) yn cymryd rhan. Roedd yn wasanaeth hynod o raenus, a diddorol oedd gweld y mamau a'u merched yn ymuno i ganu yn y parti canu.

Merched y Wawr, Cangen Bethesda

Oherwydd bod gwaith yn cael ei wneud ar adeilad canolfan Cefnfaes, bu rhaid i'r gangen fynd yn ôl i'w chartref gwreiddiol sef festri Capel Jerusalem lle cafodd ei sefydlu bron ddeugain mlynedd yn ôl. Margaret Jones oedd y Llywydd fel arfer ac i ddathlu'r cychwyniad a hefyd Gŵyl ein Nawddsant, a blodau Glas y Llygaid i gael lliwiau glas a melyn Merched y Wawr. Gwenno Evans oedd y cyfeilydd. Wedi i ni drefnu gymaint o bethau ag oedd raid, fe ddaeth Andre Lomozik a'i gyfaill i dynnu lluniau cyn i ni ddechrau hel atgofion a dathlu. Cawsom gacen ddathlu eto fyth - y tro hwn rhodd gan Dilys Jones, a chacen hyfryd oedd hi hefyd. Cawsom beth o hanes y cychwyn gan Elina Owen, y Llywydd cyntaf, ac er mor braf oedd cofio'r brwdfrydedd cychwynol (buom yn naw deg o aelodau ar un cyfnod) roedd hiraeth am y ddoe a gollwyd a'r ffrindiau a gollwyd ar hyd y ffordd. Ni allem beidio cofio am Catherine Anne danbaid oherwydd hi oedd tu ôl i'r sefydlu ar ôl iddi gyfarfod Mrs. Williams Parry mewn eisteddfod a hithau'n synnu nad oeddem wedi sefydlu cangen yma. Coffa da am lawer aelod, rhai ohonynt yn gweithio'n dawel, yn hapusach yn y gegin nag yn yr amlwg. Cofiwyd hefyd am yr Ymgyrch Bronbrawf Cymru a'r daith i Lundain a'r ymateb anhygoel gan ferched Cymru o bob rhan. Nid oeddem yn fodlon bod ar ôl Lloegr o bum mlynedd mewn mater mor bwysig. Cawsom atgofion difyr a doniol gan Jean Ogwen Jones a Gwenno Evans am rai o deithiau a thripiâu'r gangen. Roedd Eleanor Morris, yr ysgrifennydd, wedi darllen drwy'r llyfrau cofnodion a chawsom ganddi hithau lawer o wybodaeth am bethau oedd wedi mynd yn angof. Cawsom bwffe ardderchog, pawb wedi dod â rhywbeth, ac roedd yna ddigon o amrywiaeth o bopeth. Diolchodd y Llywydd i bawb am eu cyfraniad a rhoddodd rodd o fodrwy goriad o'i gwaith hi i bawb i gofio'r noson. Eleanor Holland ac Eleanor Morris enillodd y gwobrau lwcus. Diolch i bawb am noson mor arbennig. Cyfarfod nesaf, Mawrth 29 – Medwyn Williams yn Cincinnati.

EGLWYS UNEDIG BETHESDA
'LLENWI'R CWPAN'
 Dewch am sgwrs a phaned **Bob bore dydd Iau** rhwng 10.00 o'r gloch a hanner dydd

EGLWYS UNEDIG BETHESDA
 yng Nghapel Jerusalem
Estynnir croeso cynnes i bawb i oedfaon Sul
 Bore Gwasanaeth ac Ysgol Sul am 10.00
 Hwyr Gwasanaeth am 5.00

EGLWYS UNEDIG BETHESDA
Cyhoeddiadau'r Mis
 Mawrth 18 Y Gweinidog
 Mawrth 25
 Y Parch. Pryderi Ll. Jones
 Ebrill 1 Y Gweinidog
 Ebrill 8 (Y Pasg) Gweinidog 10.00
 Ebrill 15 Y Parch. Ieuan Lloyd



Aelodau cangen Bethesda o Ferched y Wawr

Rachub a Llanllechid

Dilwyn Pritchard,
Llais Afon, 2 Bron Arfon,
Rachub LL57 3LW
☎ 601880

Raymond Tugwell,
9 Ffordd Llanllechid
☎ 601077

Cylch Ti a Fi Rachub a Llanllechid

Diolch

Dymuna pwyllgor y cylch ddiolch o galon i Gyngor Cymuned Bethesda a Rachub am yr arian a gawsom eleni. Rydym bellach wedi mynd ati i brynu tegau ac offer newydd i'r cylch. Hoffem ddiolch hefyd i grŵp Dwylo Prysus, Capel Carmel am y llyfrau a roddwyd i'r plant.

Bore Coffi

Ar fore Sadwrn, 24 Mawrth mae'r cylch yn cynnal bore coffi efo Sali Mali a Sam Tân yng nghanolfan Rachub a Llanllechid o 10 i 12.30. Croeso cynnes i bawb. Am docynnau neu ragor o fanylion, cysylltwch â Keiley ar 602874.

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at deulu Gareth Dart, Maes Bleddyn a fu farw yn hynod o sydyn ddiwedd Chwefror ac yntau'n 74 mlwydd oed. Roedd Gareth wedi symud yn ddiweddar i Fangor i fyw.

Hefyd yr un yw'r cydymdeimlad ag Amanda a Stephen, Stryd Britannia ar yr achlysur trist o golli eu hewythr yn Llanfairfechan, brawd y ddiweddar Freda, ei mam.

Cofion

Anfonwn ein cofion at John Hughes, Talysarn a gafodd ddamwain wrth weithio ar y fferm yn ddiweddar. Gobeithio eich bod yn gwella.

Cyfarchion

Pen-blwydd Hapus arbennig i Donna, Maes Bleddyn.

Dathlu Pen-blwydd

Mwynhaodd Elfed Evans, Hen Barc noson i'w chofio wrth iddo dathlu ei ben-blwydd yn 80 mlwydd oed yn y Clwb Criced a Bowlio ar 24 Chwefror. Hoffai Elfed ddiolch i bawb a gymerodd ran - arweinydd y noson, Dilwyn Owen, y beirniad llenyddol, Derfel Roberts a Hogiau'r Bonc am eu cyfraniad hwythau. Ond dipyn o sioc i Elfed oedd ymddangosiad annisgwyl a hynod ddoniol y 'Metron' o Buxton. Fasai'r noson ddim wedi bod yr un fath hebdi! Dymuna Elfed ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o garedigrwydd a dderbyniodd. Mae'n falch o gael adrodd iddo dderbyn cyfraniadau

o dros £500 tuag at ymladd y clefyd motor neuron.

Diolch

Mae Avrill Williams, Lon Groes am ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am bob caredigrwydd a dderbyniodd tra'n derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn Lerpwl.

Gradd M.A.

Wedi ennill gradd MSc a gweithio am flynyddoedd fel Uwch Gynllunydd Cludiant, penderfynodd Geraint Northam newid gyrfa a mynd yn ôl i'r Coleg. Da deall ei fod wedi ennill gradd ychwanegol M.A. gydag anrhydedd mewn Celfyddyd Greadigol. Bydd rhai ohonoch yn ei gofio fel Geraint Ffrancon gyda'i label recordio 'High Quality Recordings'. Mae bellach yn byw gyda'i wraig Jiwd a'r mab Idris Tomos sydd bron yn bump oed, ym Mryste. Mawr yw'r disgwyl am enedigaeth gefeiliaid ym mis Ebrill - genod mae'n debyg.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Brian a Gwenda Jones, Bron Arfon ar ddod yn nain a thaid. Ganwyd merch, Erin Fflur, i Gethin ac Alice yn Huddersfield. Llongyfarchiadau i'r teulu i gyd.

Croeso

Croeso i 4 Llwynbedw i Huw a Sara a'r plant, Hanna a Hari, sydd wedi symud o Lanfairpwll.

CAPEL CARMEL

Gwasanaeth i'r Teulu

Cynhaliwyd gwasanaeth i'r teulu ar fore Sul, 26 Chwefror. Bu plant yr Ysgol yn canu emynau yn ystod y gwasanaeth. Mae'r bobl ifanc ar hyn o bryd yn trefnu noson i godi arian i helpu Mali Parry Owen sydd yn paratoi i fynd i Hondwuras i weithio'n wirfoddol yno dros gyfnod o flwyddyn. Byddwn yn falch o dderbyn unrhyw gefnogaeth. (Gweler t. 15).

CAPEL CARMEL Gwasanaethau

Mawrth

18 Parch. D.C. Williams; 5.00
25 Parch. J.L. Jones; 5.00

Ebrill

1 Parch D.T. Morris; 5.00 yh
8 Sul y Pasg, Parch. John Gwilym Jones; 2.00 a 5.00
15 Parch/Athro E.W. Jones; 2.00

Yr Ysgol Sul am 10.30 y.b.
Dwylo Prysus Nos Wener 6.30

Croeso Cynnes

CARMEL LLANLLECHID

Miri Mawrth

yng nghwmni
Clwb Dwylo Prysus
Nos Wener, 23 Mawrth, 2012
7.00
Tocyn £1
Elw at Gronfa Hondwras

CARMEL LLANLLECHID

Te Bach

Mis Mawrth
Pnawn Llun
19 Mawrth
2.30 tan 4.00 o'r gloch
Croeso Cynnes

Canolfan Rachub

BINGO

(hefo gwobrau)
Nos Fercher, 4 Ebrill
am 6.30

Mynediad am ddim
Trefnir gan Gylch Ti a Fi
Elw at Ganolfan Rachub

Capel Bethel Trefn Gwasanaethau

Mawrth

18 Parchedig Huw Pritchard
25 Mr Richard Lloyd Jones

Ebrill:

01 Parchedig Dewi Morris
08 Cau - Sul y Pasg
15 Gweinidog
22 Parchedig Elwyn Jones

Oedfaon am 2.00 o'r gloch.
Croeso cynnes i bawb.

Cylch Ti a Fi

Bob bore Gwener
10 - 11.30yb
Canolfan Rachub a Llanllechid
Dewch am banad, sgwrs, chwarae
a chân!
Ffôn: 602874

Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎ 601583

Cartref newydd

Rydym yn dymuno'r gorau i David, Kerry, ac Ethan yn eu cartref newydd yn Stryd Goronwy. Pob hwyl ichi fel teulu!

Hen daid a hen nain

Llongyfarchiadau mawr i Richard a Rhiannon Hughes, Stryd y Ffynnon, ar ddod yn hen daid a hen nain unwaith eto. Ganed mab bychan, Llŷr, i'w hwyres, Llinos, a'i phartner, Martin, ac mae'n frawd bach i Owain. Mae pawb wedi gwirioni efo'r bychan.

Nain a Thaid

Rydym yn gyrru ein llongyfarchiadau calonnog i Merfyn a Helen Williams, Ciltwillan, am

ddod yn daid a nain unwaith eto. Ganed mab bach, Owain, i'w mab, Gavin, a'i wraig, Lisa. Mae Owain yn frawd bach i Gethin. Pob hwyl ichi i gyd!

Hen nain

Mae Mrs Myfanwy Jones, Gwernydd, wedi dod yn hen nain unwaith eto, gan i Erin Fflur gael ei geni i'w wŷr, Gethin, a'i briod, Alice. Llongyfarchiadau mawr i chi.

Llwyddiant eisteddfodol

Rydym yn llongyfarch Elin Cain, Ffordd Gerlan a Cadi Williams, Hen Barc ar ennill ar y ddeuawd dan 15 oed yn Eisteddfod Cylch yr Urdd. Byddant yn awr yn mynd yn eu blaenau i Eisteddfod y Sir. Pob hwyl ichi'ch dwy yn yr eisteddfod honno!

Rydym, hefyd, yn llongyfarch disgyblion ysgolion yr ardal ar eu llwyddiant hwythau mewn gwahanol gystadlaethau yn yr Eisteddfod Cylch. Pob hwyl i chithau yn Eisteddfod y Sir.



Codi arian

Yn ddiweddar cyflawnodd Pam Roberts, Ciltrefnus, a'i mab yng nghyfraith, gryn gamp trwy gerdded i fyny ac i lawr yr Wyddfa i godi arian tuag at Ysbyty Plant Alder Hey. Cododd y ddau ohonynt £1300 trwy gael eu nodd, ac fe gyflwynwyd yr arian i'r ysbyty fel diolch am y gofal arbennig a gafodd wŷr Pam yn yr ysbyty. Da iawn, eich dau, a llongyfarchiadau mawr ichi.

Talybont

Neville Hughes,
14 Pant, Bethesda
☎ 600853

Nain a Thaid

Llongyfarchwyd Barbara ac Ifan Jones, 1 Dolhelyg, ar ddod yn nain a thaid am y tro cyntaf ar 2 Mawrth, gyda genedigaeith merch fach, Sisial, i Laura ac Aneurin ym Mhontyberem.

Nain

Llongyfarchiadau i Ann Owen, 15 Dolhelyg, ar ddod yn nain unwaith eto. Ganwyd merch fach o'r enw Ellyw Haf i Cefyn a Sarah.

Croeso

Mae Heather a Freya wedi ymgartrefu yn 7 Dolhelyg yn ddiweddar. Croeso cynnes i chi, a gobeithio y byddwch yn hapus yn eich cartref newydd.

Cymdeithas Talybont a'r Cylch

Cymanfa Ganu Sul y Blodau

ynghapel Bethlehem,
Talybont
am 7.30 o'r gloch
gyda

Côr y Dyffryn

(Arweinydd: Menai Williams)

Clwb "Dwylo Prysur"

Carmel, Llanllechid
(d/o Mrs Helen Wyn Williams)

Arweinydd:

Mr Edward Morus Jones
(Llandegfan)

Organydd:

Mr D. Wynn Williams
(Tregarth)

Mynediad: £3.00

Elw at Eisteddfod yr Urdd
Eryri 2012

(Apêl Ardal Talybont)

Manylion a rhaglenni gan
Neville Hughes (600853)

Capel Bethlehem, Talybont

Yn 150 mlwydd oed

Yn 1862 yr adeiladwyd y capel presennol – a does dim gwirionedd o gwbl yn yr awgrym bod rhai ohonom yno ar y pryd!! Beth bynnag am hynny, bydd aelodau'r eglwys yn cyfarfod cyn bo hir i drafod y ffordd orau i ddathlu'r pen-blwydd arbennig yma.

Bwrlwm Bethlehem

Gwnaed trefniadau ar gyfer ein swper Gŵyl Ddewi yng Nghaffi Coed y Brenin, Bethesda, ar 7 Mawrth, a hefyd ar gyfer Noson Goffi'r Bwrlwm ar nos Fercher 14 Mawrth i godi arian at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Eryri 2012 (Apêl Ardal Talybont).

Roedd yn braf gweld Mrs Enfys Jones, 2 Cae Gwigin, yn ôl wedi ei chyfnod yn yr ysbyty.

Llongyfarchwyd Mrs Jean Hughes, Bryn Awel, ar ei phen-blwydd yn 80 mlwydd oed, ac wrth gwrs, roedd yn rhaid i griw'r Bwrlwm ddathlu'r achlysur – hefo clamp o gacan!



Jean Hughes yn dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed

Cymanfa Ganu Sul y Blodau

Edrychir ymlaen at y Gymanfa flynyddol hon a drefnir gan Bwyllgor Cymdeithas Talybont a'r Cylch. Y dyddiad eleni yw 1 Ebrill. (Gweler yr hysbyseb am y manylion).

Eglwys Maes y Groes

Cynhaliwyd ein cinio blynyddol ddechrau'r mis yng ngwesty'r Fictoria ym Mhorthaethwy. Roedd pob un wedi mwynhau y noson a'r bwyd blasus. Cawsom ein diddanu gan Robert Wyn Roberts sef cyn-brifathro Ysgol Llandygai. Trefnodd ein ficer John Mathews a'i briod Sue gystadleuaeth i ni ysgrifennu penillion i'w canu ar donau cyfarwydd y Nadolig. Llongyfarchiadau i Eglwys Llandygai ar ddod yn fuddugol. Cyflwynwyd tusw o flodau i Phyllis Davies gan ein ficer mewn gwerthfawrogiad am drefnu'r noson lwyddiannus mor drylwyr.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwys at Cora Hutchinson, Felin Cochwillan, yn dilyn marwolaeth ei modryb yn Swydd Efrog.

Mae Olwen Thomas bellach wedi symud at ei chwaer i gartref nyrsio yn Walsall. Da deall ei bod wedi setlo i lawr ac yn hapus iawn yn cael cwmpeini Muriel ei chwaer.

Anfonwn ein dymuniadau gorau at Betty Ellis a Cora a Kieron Fielding sydd heb fod yn dda yn ddiweddar.

Capel Bethlehem

Trefn Gwasanaethau

Mawrth

18 Gweinidog;
25: Parch. Pryderi Llwyd Jones, Cricieth.

Ebrill

01 : Gweinidog ;
08 : CAU – Cyfarfod Pregethu Carmel Llanllechid ;
15 : Mr. R. J. H. Griffiths (Machraeth) ;
22 : Parch. Iorwerth Jones-Owen, Caernarfon.

Oedfaon am 2.00.
Croeso cynnes i bawb.

Glasiŷfryn Caerhun

Marred Glynn Jones
2 Stryd Fawr, Glasiŷfryn,
Bangor LL57 4UP
01248 351067
Marred567@btinternet.com

Sefydliad y Merched

Bu nifer ohonom yn Venue Cymru yn Llandudno ar 12 Ionawr. Trefnwyd yr achlysur gan Mair Griffiths a chafwyd pnaun

arlderchog. Wedi cyfarfod am ginio cawsom ein gwefreiddio gan berfformiad o'r "King and I". Diolch o galon Mair (unwaith eto) am drefnu ar ein cyfer - edrych ymlaen at y nesa!!

Ar 8 Chwefror deuthum at ein gilydd yn y Ganolfan dan arweiniad ein llywydd Mrs Ingrid Farrer. Croesawyd aelod newydd -Mrs Carol Singleton, ac estynnwyd cydymdeimlad â Mrs Pat Jones. Bu farw mam Pat ar ôl gwaaledd hir. Balch iawn oeddem o glywed fod merch yng nghyfraith Ingrid yn gwella'n dda ar ôl derbyn triniaeth am gancr. Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn rhai anodd a phoenus i'r teulu. Dymunwn yn dda i'r wraig ifanc.

Wedi trafod y materion cyflwynwyd ein gŵr gwadd, Mr Dafydd Ellis. Ei destun oedd "A Working Life" neu fel y dywed Dafydd, "Sheds of Life."

Magwyd Dafydd yn Nolwyddelan lle bu dylanwad rhai o gymeriadau'r ardal yn rhan bwysig o'i fagwraeth. Mae pob dyn angen sied meddai Dafydd - lle i ddianc ac ymlacio. Yn fachgen ifanc cafodd gwmpeini llawer cymeriad yn y sied. Mynd ar ôl r'ysgol ac yn y gwyliau i wyllo, a gwrando a dysgu llawer gan gymeriadau lliwgar y pentref. Dysgu sut i drin coed, hogi twls, trwsio beics, mesur pren, twtio a sgwrsio ond yn bennaf gwrando -

dyma sut mae dysgu! Profiad braf i fachgen ifanc, yn llunio bywyd ac yn rhoi sylfaen i gymeriad.

Mae cwrs bywyd Dafydd wedi newid llawer gwaith ac erbyn heddiw mae'n fedrus tu hwnt mewn gwaith coed. Canlyniad, mwy na thebyg, o wario oriau difyr mewn sied! Daeth â nifer o ddarnau o'i waith i'w ddangos gan gyflwyno 'gavel' i Ingrid yn rhodd i'r Sefydliad.

Rhoddyd y te gan Mrs Nesta Parry a Mrs Mair Banham. Mair roddodd y raffl hefyd. Cofiwch ddod dipyn yn gynt nag arfer i'r cyfarfod nesaf.

Llandygái

Ethel Davies, Pennard,
Llandygái ☎353886

Gwaeledd

Anfonwn ein cofion a dymunwn wellhad buan i Ernie a Nerys Coleman, Ieuan a Ceinwen Evans, John Evans (Llys y Gwynt), Jim a Beryl Hughes, Bobby Jones, Olwen Latham, Gwen Morsley, Cassie Tindall, Betty Williams a Dorothy Proudley-Williams. Brysiwch wella.

Pen-blwydd

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mr Robin Jones, 14 Pentre Llandygái a fydd yn dathlu ei ben-blwydd ar 20 Mawrth. Gobeithio y cewch ddiwrnod hapus, Robin.

Noswaith Gymdeithasol Pentre Llandygái

I ddathlu Dydd Gŵyl Dewi eleni mae'r aelodau wedi penderfynu cynnal noson o adloniant yn neuadd Talgai ar nos Fercher, 29 Chwefror. Bydd Côr Rygbi Gogledd Cymru yn cymryd rhan ac ar y fwydlen bydd lobsgôws a theisennau cri, ac wrth gwrs raffl - mae'n argoeli'n noson dda iawn. Diolch o galon i Iona ac Eirlys am drefnu popeth, i'r merched yn y gegin ac i bawb arall am eu cefnogaeth.

Eglwys Sant Tegai

Gwaeledd

Cofiw'n mis hwn eto am ein cyfeillion sy'n wael yn eu cartrefi: Mrs Jane Couch, Mrs Beryl Edwards, Mr Gwynne Edwards a Harry Gross. Dymunwn adferiad llwyr a buan i chwi i gyd. Roeddem yn falch o weld Liz Jones yn y gwasanaeth fore Sul, 19 Chwefror ac er ei bod ar ei bagl aeth i fyny at yr allor i dderbyn ei chymun. Bore Mawrth roedd yn mynd â Jacob, ei hŵyr bach, am dro o gwmpas y pentref. Da iawn, Liz, daliwch ati.

Ymdddeoliad

Dymunwn yn dda i'r Barchedig Lynne Perry ar ei hymdddeoliad o fod yn offeiriad yn Esgobaeth Bangor. Gobeithio y bydd hi a Chris yn hapus iawn yn eu cartref newydd ac y cânt amser i fwynhau bod gyda'r teulu yng Ngwlad yr Haf.

Diolch

Diolch o galon i Mrs Phyllis Davies am drefnu noswaith o fwyniant llwyr i aelodau y tair eglwys yng Ngwesty'r Fictoria, Porthaethwy ar nos Wener, 3 Chwefror. Cinio Nadolig oedd, a'r bwyd yn flasus iawn fel arfer, a'r adloniant yn hwyliog a phawb yn cymryd rhan yn y canu a'r barddoni. Diolch i Robert Wyn Robert (cyn-bennaeth Ysgol Llandygái) am ddod i'n diddori gyda'i ganu.

Diolch i aelodau Maes y Groes, chwi wnaeth y gwaith caled i gyd a ninnau'n dod i fwynhau ein hunain.

Te Crempog

Diolch i aelodau Eglwys y Santes Fair, Tregarth am eu croeso caredig i de crempog ar brynawn Mawrth, 21 Chwefror. Prynawn difyr dros ben a phawb wedi mwynhau y crempogau a'r baned. Diolch arbennig i Mair Griffiths, hi, druan, fu'n brysur yn gwneud y crempogau.

Eglwys Sant Tegai

Hysbysiad
Eglwys Sant Tegai
Llandygái

Y Croeshoeliad (Stainer)

Nos Sul, 25 Mawrth
Am 7.30 yr hwyr
Cenir gan Cantabile

Rhiwlas

John Huw Evans,
30 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎352835

Llwyddiant Actor

Yn rhifyn Chwefror roeddem yn llongyfarch Llewelyn Steffan ar ei llwyddiant yn Llydaw. Y mis hwn cawn gyfle i longyfarch un arall a fagwyd yn y pentref, sef Owain Arthur Edwards a fu'n byw yng Nghaeau Gleision hyd ei fod yn ddeunaw oed.

Bydd Owain yn cymryd y brif ran mewn cynhyrchiad o 'One Man, Two Guvnors' yn y Theatr Royal, Haymarket, Llundain, o ganol Mawrth am gyfnod o chwe mis. Mae hwn yn anferth o gam ymlaen iddo fel actor ac yn brawf o'i ddyfalbarhad a'i ddynwch yn ystod ei yrfa yn y theatr. Rydym fel pentref yn falch o'i lwyddiant ac yn ymhyfydu mai yma yn Rhiwlas y derbyniodd ei addysg gynnar, yn Ysgol Sul Pysgah ac yn yr ysgol gynradd. Mae Owain yn gyn-ddisgybl o Ysgol Dyffryn Ogwen ac yn gyn-fyfyriwr o Ysgol Glanaethwy. Cofiw'n amdano yn ymddangos am y tro cyntaf ar S4C yn y gyfres boblogaidd Rownd a Rownd. Llongyfarchiadau, Owain, a mwynha'r profiad.

Mae'n sicr y bydd llawer o Gymraeg i'w glywed ymhlith y gynulleidfa yn y Theatr Royal yn ystod yr wythnosau nesaf wrth i'w ffrindiau a'i gefnogwyr dyrru yno.

Yn ôl troed ei thad

Rhoddodd y Parchedig Philip O. Butler wasanaeth clodwiw ym mhlwyfi Pentir a Glasinfryn o 1963 hyd ei ymdddeoliad yn 1991 gan ofalu am Eglwys St Cedol

Pentir, St Siôr, Rhiwlas a St Elizabeth, Glasinfryn.

Yn awr mae ei ferch, y Barchedig Ddr. Carol S. B. Roberts wedi ei thrwyddedu fel offeiriad mewn gofal ar blwyfi Llanberis, Llanrug a Llanddinorwig gan ddilyn ei thad yng ngwaith yr Eglwys.

Bydd pum Eglwys o dan ei gofal, sef St Padarn, Llanberis a St Peris, Nant Peris, St Michael, Llanrug a St Gabriel, Cwm y Glo, ynghyd ag Eglwys Crist, Deiniolen.

Yn dilyn ei hordeinio'n ddiagon yn 2007 bu yn gurad cynorthwyol ym Mangor. Yn 2008, cafodd ei hordeinio yn offeiriad. Magwyd Carol yn y Ficerdy, Pentir ac fe'i haddysgwyd yn Ysgol Gynradd Llandygái, Ysgol Uwchradd Dyffryn Ogwen a Choleg y Brifysgol, Bangor.

Dechreuodd yn ei swydd yn Rhagfyr 2011 a dymunwn bob bendith a bodlonrwydd iddi wrth weinidogaethu yn y tair ardal.

Newid aelwyd

Croeso i Derek a Mai Jones i'w cartref newydd yn 26 Bro Rhiwen. Daw Mai yn wreiddiol o Fynydd Llandygái a Derek o Nefyn. Gobeithio y byddant yn hapus yn ein plith.

Croeso adref

Oddeutu ddeng mlynedd yn ôl bu cyfeiriad yn y Llais at y ffaith bod ar y pryd bymtheg o ieuencid y pentref yn mynychu rhyw goleg neu'i gilydd. Nifer uchel o gofio nifer y boblogaeth. Hyd y gwyddys mae pob un ohonynt mewn swydd. Yn anffodus, ni ddaeth yr un ohonynt yn ôl i Rhiwlas i fyw.

Y newydd da yw bod hyn ar newid mewn un achos o leiaf. Mae Ceri Owen gynt o 7 Caeau Gleision wedi cael swydd fel nyrs ar Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd. Bu Ceri yn awyddus ers tro i adael ei swydd nyrsio yng Nghaerdydd a dod adref i'w chynefin. Mae hi a Pedr Jones, ei chymar, a'r bechgyn Gruffydd a Cynan, yn awr yn edrych ymlaen at gartrefu ar Ystâd Caeau Gleision. Croeso adref Ceri. Mae'n bleser dy weld t i a'r teulu adref yn Rhiwlas.

Pentir

Anwen Thomas,
Min yr afon
11 Rhydygroes, Pentir
☎ 01248 355686

Ymfudiad Brogaod
Unwaith eto eleni mae brogaod a rhai o lyffantod Pentir ar eu siwrnai flynyddol. Difyr yw nodi bod penbleth wedi codi eleni. Broga i nifer yw 'toad' a llyffant yw 'frog'. I eraill broga yw 'frog', llyffant yw 'toad'. Drwy siarad â rhai arbenigwyr yn y maes fe ymddengys fod y ddwy ffordd o feddwl yn gywir, yn dibynnu ym mha ardal yr ydych chi.

Eglwys Sant Cedol

Clwb 100 – Mis Chwefror
1af rhif 29 – Tom Perry, Nant y Garth
2ail rhif 46 – David E. Williams, Glasinfryn
3ydd rhif 38 – Huw Redvers-Jones, Ll'gristiolus

Te Crempog

Prynawn Mercher, 22 Chwefror, cafwyd te crempog yn y Ganolfan, Glasinfryn. Roedd yn brynawn hwyliog a llwyddiannus. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Cawl a chên

Yn Eglwys St Cedol, nos Wener, 16 Mawrth am 7 o'r gloch, gyda Chôr Oriana yn diddanu. Croeso cynnes i bawb.

HelFa Drysor

Prynawn Sul, 22 Ebrill, croeso cynnes i bawb. Manylion pellach i ddilyn.

Garddwest

Prynawn Sadwrn, 26 Mai yn y Ficerdy, Pentir am 2 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Diolch

Dymuna Nia ddiolch am y cardiau, anrhegion a dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd arbennig. Diolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion.



Un o'r brogaod ar ei daith
Llun gan Wyn James

Felly ar gyfer y stori yma, broga yw 'toad'. Hyd yma, mae mwy na 700 wedi eu hachub ac oddeutu 1,094 wedi eu cofnodi yn y llyn y maent yn teithio iddo i fwrw sil. Diolch am waith clodwiw rhai o ardalywyr Pentir am fentro allan ym mhob tywydd yn y tywyllwch i gynorthwyo'r daith arbennig hon.

Ymddengys bod y daith yn cymryd hirach eleni. Da yw cael diddordeb gan griw o Foelyci sydd yn casglu gwybodaeth a chofnodi niferoedd. Gobeithiwn allu casglu yr holl wybodaeth a chynnal yr ymchwil yn flynyddol.

Apêl Pentir Tŷ Gobaith

Eleni cynhelir soch rhost blynyddol i godi arian i elusen Tŷ Gobaith yng nghae Bryn Meddyg, sgwâr Pentir, 30 Mehefin, amser i'w gadarnhau.

Parchu Pentir

Gair i atgof ardalywyr Pentir fod Parchu Pentir yn cwrdd ar yr ail ddydd Mawrth o'r mis yn Nhafarn y Faenol yn sgwâr Pentir. Dewch i gael dweud eich barn.

Gala Nofio Cenedlaethol Urdd Gobaith Cymru 2012.

Llongyfarchiadau mawr i Cedol a Marteg Dafydd ar eu llwyddiant yn y Gala yng Nghaerdydd ar 28 Ionawr.

Daeth Marteg yn gyntaf trwy Gymru ar y dull rhydd (Blwyddyn 3&4) a Cedol yn ail yn y dull broga (Blwyddyn 5&6). Hefyd bu'r ddau yn cystadlu gyda thimau rasy cyfnewid; tîm Marteg - 1af yn y ras gyfnewid rydd a'r ras gyfnewid gymysg. Tîm Cedol - 4ydd yn y ddwy ras.

Karate

Llongyfarchiadau mawr i Luc Sharrock ar gyrraedd safon gwregys porffor.

Eisteddfod Cylch Bangor Ogwen

Llongyfarchiadau eto i'r brawd a chwaer o Garreg Nant! Daeth Cedol yn fuddugol ar yr Unawd Pres a'r Unawd Piano (dan 12 oed), a Marteg yn gyntaf ar yr Unawd Telyn (dan 12 oed). Mae Cedol hefyd drwodd gyda'r parti llefaru a'r band. Pob hwyl i'r ddau yn yr Eisteddfod Sir ar 24 Mawrth.

Carneddi

Derfel Roberts,
Ffordd Carneddi, Bethesda ☎
600965

Pen-blwydd

Dymuniadau gorau i David Morgan, 53 Ffordd Carneddi ar gyrraedd ei ben-blwydd yn 60 oed ar Fawrth 21. Bydd criw o Fethesda yn mynd draw i Ddylun i ddathlu'r pen-blwydd arbennig hwn a byddant yn gwyllo'r Gweilch yn chwarae yn erbyn Leinster fel rhan o'r dathliadau. Pob hwyl i David a'i gyfeillion yn yr Ynys Werdd.

Ysbyty

Dymuniadau gorau i Mrs Doris Jones, Cilfoden a Mrs Jean Prince, Tan y Foel, sydd naill ai wedi bod yn yr ysbyty neu yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Gwellhad buan i chi bob un.

Tregarth

Gwenda Davies,
Cae Glas,
8 Tal y Cae, Tregarth
☎ **601062**

Olwen Hills (Anti Olwen),
4 Bro Syr Ifor, Tregarth
☎ **600192**

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Valerie a David Ellis Jones, Llanfairpwll ar ddod yn Nain a Thaid am y tro cyntaf. Ganed Ela Non ar 17 Chwefror i'w mab Dewi a'i wraig Einir sy'n byw ym Montnewydd. Mae gwreiddiau Valerie yn Nhregarth, yn ferch i'r diweddar Laurence ac Audrey Davies, Glan Gors.

Profedigaeth

Yn Ysbyty Maelor, Wrecsam ar 5 Chwefror, a hithau'n 91 mlwydd oed, bu farw Menai Smith [Williams gynt] sef chwaer annwyl Margaret, 1 Ffordd Tanrhiw ac Annie, a merch y diweddar Elizabeth a John Melancthon Williams, Tregarth. Hefyd yn chwaer i'r diweddar Catherine, Bert, John a Will. Roedd Menai yn fodryb, cyfnither a chwaer yng nghyfraith arbennig iawn i lawer yn Nyffryn Ogwen. Bu'n byw yn Rhosllannerchrugog ger Wrecsam am 65 o flynyddoedd ac roedd yn uchel iawn ei pharch yno. Carai Margaret ar ran y teulu yn Johnstown ddiolch am y cardiau a'r rhoddion tuag at Tŷ'r Eos, Ysbyty Maelor, sef cyfanswm o £400. Diolch i bawb.

Ar Chwefror 22 yn dawel yn Ysbyty Gwynedd, gynt o Erw Faen, Tregarth, yn 87 mlwydd oed bu farw Jennie Blodwen Griffith, gwraig y diweddar Gwilym Wyn Griffiths a mam Adrian, Tony, Helen, Pat, Carol a'r ddiweddar Diana, a chwaer Hughie. Roedd hefyd yn nain, hen nain ac yn fam yng nghyfraith boblogaidd iawn. Bu ei hangladd yn Eglwys y Santes Fair, Y Gelli, dydd Mercher, 29 Chwefror. Cydymdeimlwn yn ddwys hefo chi fel teulu.

Ar 13 Chwefror, yn frawychus o annisgwyl, bu farw Bryn Morris Jones ac yntau ond yn 54 mlwydd oed, o Aran Môr, Ffordd Hwfa, Siliwen, Bangor. Gedy ei wraig Jan a'i blant, Llŷr, Gwion, Branwen a Non. Roedd Bryn yn un o feibion Ena a'r diweddar Dafydd [Eic] Morris Jones ac erbyn hyn mae Ena yn byw yma yn Nhregarth, sef yn 15 Tal y Cae. Roedd Bryn yn frawd i Bethan Catrin, Nant yr Eira, Tal y Cae ac i Gareth a Gwyn. Deintydd yn Llanfairpwll oedd Bryn wrth ei alwedigaeth a gwelir ei golli yn fawr iawn gan laweroedd yn yr ardal. Bu ei angladd yn Amlosgfa Bangor ar 22 Chwefror gyda gwasanaeth coffa yn dilyn yng Nghapel Berea Newydd ym Mangor. Cydymdeimlwn yn ddwys gyda chi i gyd fel teulu yn eich profedigaeth sydyn.

Canmoliaeth i Ysgol arbennig

Gyda sôn yn ystod yr wythnosau diwethaf am gau Ysgol Coed Menai, neu'r hen Ysgol Treborth fel y cofiwn amdani ym Mangor, daeth newyddion ardderchog am yrfa bachgen a fagwyd yn Ysgol Treborth, sef Trystan Parry Williams, mab Wil a Dilys Parry Williams a brawd i Rhian Mair, Encil, Tal y Cae, Tregarth. Ers chwe blynedd bu Trystan yn bennaeth ar Ysgol Springfields yn Swydd Wiltshire. Ysgol arbennig yw'r ysgol hon sy'n gweithio gyda phlant â thrafferthion ymddygiad, cymdeithasol ac emosiynol. Ers i Trystan fod yn bennaeth bu dau arolwg llawn a chafodd yr ysgol sgôr o Radd 1 ymhob pwnc ar y ddau achlysur. Yn 2007 enillodd yr ysgol Statws Coleg Chwaraeon ac

yn 2009 dyrchafwyd teitl yr ysgol o Ysgol arbennig i 'High Performing Specialist School'. Bellach dyrchafwyd yr ysgol sydd yng ngofal Trystan yn Academi. Newyddion ardderchog a llongyfarchwn Trystan am ei waith rhagorol yn arwain yr Academi.

Clwb 100 Canolfan Tregarth

Mis Ionawr	
35 Tudor Jones	£15
33 Marian Griffiths	£10
6 David Hadfield	£ 5
Mis Chwefror	
14 Val Hayward	£15
41 Goronwy Roberts	£10
31 Ellen Griffiths	£ 5

Merched y Wawr Cangen Tregarth

Geraint Thomas o ardal y Bala oedd y gŵr gwadd yng nghyfarfod mis Chwefror o Gangen Tregarth o Ferched y Wawr. Cafodd ei fagu ym Mhenygroes ac yn Nyffryn Nantlle ac mae'n berchen ar siop Camerâu a Ffotograffau yng Nghaernarfon.

Yn ddiweddar daeth yn awdur llyfr hynod o ddiddorol am holl Llynnoedd Eryri. Geraint sy'n gyfrifol am y lluniau gwych o'r llynnoedd yn y llyfr yn ogystal â'r hanesion a gysylltir gyda'r llynnoedd rheini. Croesawyd Geraint yn gynnes i'n plith gan Anwen Griffiths, ac yn ystod y noson bu'n siarad am y dasg enfawr o gael yr holl waith at ei gilydd. Yn aml roedd yn rhaid cerdded a dringo milliroedd o erwau ym mhob math o dywydd er mwyn cyrraedd rhai o'r llynnoedd diarffordd ac yn aml bu'n rhaid codi ben bore neu fod ar ei draed yn hwyr y nos i gael y lluniau mwyaf cofiadwy.

Cododd gywilydd ar y gynulleidfa na wyddent am fodolaeth rhai o'r llynnoedd a rheini ar ein carreg drws, fel petai. Anogodd bawb i geisio mynd ati i ddarbwylllo teulu a ffrindiau i fynd i chwilio am y manau a ddisgrifir yn y lluniau a phwysigrwydd trosglwyddo'r dreftadaeth i'n plant ac i blant ein plant. Diolchwyd i Geraint ar ran y gangen gan Gwenda a gwnaed y baned gan Ena, Mair, Buddug a Dilys.

Bydd y gangen yn dathlu Gŵyl Dewi gyda Noson Gymdeithasol yn Ffestri Capel Shiloh, Nos Lun, Mawrth 5. Croeso cynnes i bawb.

Profedigaeth

Cydymdeimlwn fel ardal gyda Bessie a Fred Buckley, Maes Ogwen Tregarth yn eu profedigaeth o golli brawd Bessie, sef y cyn Sergeant Hugh Parry-Jones, Dolgarrog, ond yn enedigol o Fynydd Llandygai.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Marc a Catrin Williams, 66 Bro Syr Ifor ar enedigaeth mab, Osian Wyn Lewis. Llongyfarchiadau i taid a nain, Alec a Denise.

Dymuniadau da

Dymuniadau gorau i Marjory Kimpton, 69 Bro Syr Ifor ar symud i Maes y Garnedd, Bethesda. Bu Marjory yn byw ym Mro Syr Ifor ers 1977.

CAPEL SHILOH

Cyhoeddiadau Shiloh am yr wythnosau nesa.

Ysgol Sul bob bore Sul am 10.30 ac oedfaon am 5.30

Mawrth

- 11 Parchedig John Gwilym Jones, Peniel, Caerfyrddin
- 18 10.30 Gwasanaeth Teulu 5.30 Parchedig Olaf Davies, Bangor
- 25 Mr J.O. Roberts, Bethesda

Ebrill

- 1 Trefniant Lleol
- 8 Parchedig Geraint Roberts, Porthaethwy
- 15 Mr Richard Lloyd Jones, Bethel

Bu un o aelodau'r Ysgol Sul, Gwenno Roberts, Fferm Dob, merch fach 5 oed Sioned a Nigel Roberts, dan lawdriniaeth ar ei llygaid yn Ysbyty Gwynedd yn ystod hanner tymor yr ysgol. Mae Gwenno yn gwella yn dda a bydd yn hyfryd ei chroesawu yn ôl i'r Ysgol Sul yn fuan.

Mynydd Llandygái

Theta Owen.
Gwêl y Môr,
Mynydd Llandygai.
☎ **600744**

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Christopher a Jo ar enedigaeth mab bach, Tomos John, ŵyr bach i Ceinion ac Alison, a gor-ŵyr i Mrs Mair Williams. Llauer o gariad a dymuniadau lu.

Dathliad

Priododd Dei a Megan ar Ddydd Gŵyl Dewi 60 mlynedd yn ôl. Llongyfarchiadau ar eich priodas ddiemwnt, a dathliad hapus a dymuniadau gorau i chwi.

Cyfarchion

Anfonwn ein cyfarchion at Mr Gwilym Bullock. Mae yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd ac mae pawb o'r Clwb yn anfon eu dymuniadau gorau.

Dymuniadau Gorau

Nid yw iechyd Huw Parry, Dolgarrog (hogyn y Mynydd yw Huw) yn dda, ac anfonwn ein dymuniadau gorau atoch.

Clwb y Mynydd

Cafwyd prynhawn difyr iawn yng nghlwb y Mynydd gyda phlant Ysgol Bodfeurig yn holi am hanes y pentref, y chwarel ac amser y rhyfel ac ati. Diolch i'r plant a phawb a gymerodd ran. Bydd y Clwb yn dathlu eu te Dydd Gŵyl Dewi ddydd Mercher, 21 Mawrth am 2 o'r gloch.

Parhad dros y dudalen

Eglwys y Santes Ann a'r Santes Fair

Mawrth 18:

9.45 Sul y Fam - Boreol Weddi

Mawrth 25:

9.45 Cymun Bendigaid

Ebrill 1:

9.45 Gwasanaeth Teuluol

Ebrill 4:

7 yh Gwasanaeth Tenebrae (Gwasanaeth sydd drwy ddiffodd canhwyllau yn pwysleisio tywyllwch gweddill yr Wythnos Fawr).

Ebrill 6:

2 yw Gwener y Groglith - Defosiynau o flaen y Groes.

Ebrill 8:

Sul y Pasg: 6.15 yb: Gwasanaeth y Wawr (y maes parcio ger Bwthyn Idwal)
9.45 Cymun Bendigaid.

Ebrill 15:

9.45 Boreol Weddi.

Diolch i bawb a gefnogodd y Noson Gremgog. Enillwyr y raffl oedd Isaac Beward, Mike Yates a'r Ficer.

Estynnwn groeso i bawb i'r Ffair Basg brynhawn Sadwrn, 31 Mawrth am 2 o'r gloch. Cofiwch alw am banded!

Ein dymuniadau gorau at bawb sy'n sâl ar hyn o bryd. Anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd.

Braichmelyn

Rhiannon Efans,
Glanaber, Pant, Bethesda □
☎ 600689

Pen-blwydd Arbennig

Llongyfarchiadau i Meriel Twigge, Cefn Cwlyn ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 mlwydd oed ar 7 Mawrth. Gobeithio eich bod wedi cael diwrnod wrth eich bodd.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Mrs Rita Williams ac Alan Blaen-y-cae yn eu profedigaeth o golli chwaer yng nghyfraith yn ochrau Wrecsam. Mae Elwyn Williams, 15 Gernant, wedi colli modryb hefyd. Cydymdeimlwn ag ef a'r teulu.

Cartref newydd

Symud tŷ a wnaeth Mrs Shirley Evans, y Bwthyn, i Abercaseg. Gobeithiwn y byddwch yn hapus yn eich cartref newydd Shirley. Mae teulu bach arall wedi symud i'r Bwthyn, croeso iddynt hwy i'w cartref newydd.

Anfonwn ein cofion at bawb sydd wedi bod o dan anwyd neu unrhyw anhwylder arall. Cofiwch anfon eich newyddion at y gohebydd, os gwelwch yn dda.

Côr Meibion y Penrhyn

Lansio CD newydd

Ar Nos Sul 19 Chwefror mewn cyngerdd mawreddog yng Nghapel Jerusalem lansiodd CD newydd y côr yn swyddogol gyda Rhys Meirion a Chôr y Dyffryn yn cynorthwyo. Mae'r CD wedi ei chwblhau ers rhai wythnosau ond yr achlysur hwn oedd y tro cyntaf y gellid cael Rhys Meirion yn rhydd i ymuno â ni mewn lansiad swyddogol.

Agorwyd y cyngerdd gyda'r côr yn cyflwyno tair cân, sef 'Gloria', 'Lisa Lan' a 'Tydi a Roddaist' ac yna daeth Côr y Dyffryn dan arweiniad Menai Williams ymlaen i gyflwyno dwy gân gan swyno'r gynulleidfa gydag asiad gwych rhwng y sopranos a'r altos ar un llaw a'r tenoriaid a'r baswyr ar y llaw arall.

Y nesaf i ymddangos oedd seren y noson, Rhys Meirion, sydd wedi rhannu llwyfan â Chôr y Penrhyn ar sawl achlysur bellach. Canodd Rhys ddau ddarn clasurol gan Verdi a Puccini cyn i'r côr ddychwelyd i'r llwyfan i ganu tair cân arall oddi ar y CD.

Yn yr ail hanner dilynwyd trefn debyg eto gyda'r côr yn cyflwyno'r gân 'Tshotoloz' ac Owain Arwel, yr arweinydd, yn curo'r drwm Affricanaidd yn gyfeiliant iddi. Clywyd dau ddarn arall gan Gôr y Dyffryn cyn i Rhys Meirion ddychwelyd i ganu 'Mae hiraeth yn y môr' gan Dilys Elwyn Edwards a chân gan Robat Arwyn, un o gyfansoddwyr cyfoes amlycaf Cymru.

Diweddwyd y Cyngerdd gyda Rhys yn ymuno â'r côr i ganu'r 'Anthem' allan o Chess a 'Byd o Heddwch' addasiad Cymraeg gan Penri Jones o'r gân 'World in Union'. Mae Rhys i'w glywed yn canu ar y CD yn y ddwy gân honno a mawr obeithiwn y bydd mynd da ar y recordiad arbennig hwn, sy'n sefyll allan fel cyflwyniad ffres a gwahanol, gan fod y cyfeiliant gwych sy'n gefndir i leisiau'r côr yn gwneud byd o wahaniaeth.

Côr y Penrhyn yn Stadiwm y Mileniwm

Cafodd y côr brofiad newydd sbon i fwyafrif yr aelodau pan wahoddwyd ni i ganu cyn ac yn ystod y gêm rygbi ryngwladol rhwng Cymru a'r Alban ar Chwefror 12. Ar ôl wythnosau o

ddysgu dyfal ar ganeuon megis 'Tydi a Roddaist', 'Cwm Rhondda' a 'Delilah', teithiodd y côr i lawr i'r de gan aros yng Nghasnewydd ar y nos Sadwrn cyn y gêm.

Bore drannoeth, ar ôl noson o ymarfer caled, dyma droi ein trwynau at y brifddinas i ganol torfeydd lliwgar o gefnogwyr Cymru gyda'u baneri coch a gwyrdd ac Albanwyr yn eu ciltiau lliwgar. Aeth y côr drwy'r rhaglen yng nghwmni bechgyn Côr Treorci yn un o'r gwagleoedd yng nghrombil y stadiwm a hynny o dan arweiniad Haydn James o Lundain, sy'n arweinydd cyfarwydd ar lwyfannau mawr fel Neuadd Albert a Chanolfan Dewi Sant yng Nghaerdydd.

Cyn cychwyn y gêm cawsom y fraint o sefyll ar ystlys y maes cenedlaethol i ganu i bedair ochr y stadiwm fel roedd y dyrfa frwd yn dod i'w seddau ac ar ben hynny cawsom fod o fewn cyffyrddiad llaw i rai o arwyr y bêl hirgron – chwaraewyr medrus a nerthol fel Jamie Roberts, George North a Leigh Halfpenny, a bydd y profiad hwn yn aros gyda'r aelodau am flynyddoedd i ddod ac yn stori i'w hadrodd i'n plant ac i'n hwyrion yn y dyfodol. Da iawn fechgyn Cymru am fuddugoliaeth gyfforddus ar ôl hanner cyntaf digon di-fflach.

Gŵr y Gân

Yn ddiau, er mai Dan Lydiate gafodd "Man of the Match" ar y maes chwarae, does dim dwywaith mai 'Gŵr y Gân' ymhlith y cantorion oedd Walter Williams o Fethesda. Yn ôl Rhys Llwyd, ei gyfaill o Dregarth, "Dangosodd Walt drwy esiampl ei fod wedi dysgu ei nodau lleisiol yn wych ac nid wedi bodloni ar ganu'r alaw fel rhai pobl, heb enwi neb."

Ychwanegodd Rhys, "Mae Walt yn enghraifft odidog o aelod sy'n serennu ymhob perfformiad ac felly ni allaf wneud dim llai na'i longyfarch yn galonnog ar dderbyn gwobr "Gŵr y Gân" yn ystod yr achlysur hwn."

Bugeilio gofalus

Dymuna pwyllgor a swyddogion y côr ddiolch i Tomos Williams o Hen Barc am ymgymryd â'r dyletswyddau o ofalu am aelodau ieuengaf a hynaf y côr mor annwyl yn ystod y daith. Meddai Garem Jackson, ysgrifennydd y côr, "Mae'n gysur mawr gwybod bod rhai aelodau yn fodlon rhoi o'u hamser ac o'u pocedi eu hunain i sicrhau diogelwch a mwyniant y rhai



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

alunffred.jones@cymru.gov.uk



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch af ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

williamshy@parliament.uk

mwyaf bregus yn ein plith. Gwn fod y ddau Wil yn ddiolchgar iawn i Tom am ei gonsym.”
Cadeirydd yn ysbrydoli

Mae Côr y Penrhyn wedi cael cadeiryddion nodedig dros y blynyddoedd ond go brin bod llawer fyddai'n gallu llenwi esgidiau ein cadeirydd presennol. Llwyddodd William Parry i gyfleu'r urddas a'r teimlad o gyfrifoldeb oedd yn gweddu i'r achlysur ac i enw da'r côr wrth roi anerchiad o anogaeth i'r aelodau ar y ffordd i lawr i Gaerdydd. Sgwrs fer ac i bwrpas oedd hi ond roedd hi'n llawn teimlad ac yn cyfleu'n gryno yr hyn oedd ar ei feddwl. Diolch Wil!

Côr Meibion Dinas Bangor

Yn ystod deufis cyntaf y flwyddyn y mae'r arweinydd wedi bod oddi cartref yn gweithio yng Ngwlad Thai, a Bangkok, y brifddinas, yn benodol. Yn ystod y cyfnod yma yr oedd y Côr yng ngofal y Dirprwy Arweinydd Gwilym Lewis, Caerdybi. Y mae Gwilym yn Ddirprwy ac yn aelod ffyddlon iawn ym Mangor yn ogystal â bod yn Arweinydd Côr Caerdybi hefyd. Y mae perthynas agos rhwng y ddau gôr efo nifer o Gaerdybi yn teithio i Fangor yn rheolaidd bob nos Fercher i fynychu'r cyfarfodydd canu.

Ar nos Wener 2 Mawrth canodd y Côr gyda nifer eraill o gorau ac artistiaid mewn cyngerdd arbennig yn Neuadd Prichard Jones ym Mangor i godi arian at Eisteddfod yr Urdd. Ceir mwy o fanylion maes o law.

Y mae rhaglen lawn iawn gan y Côr am 2012 gydag wyth o gyngherddau hyd yn hyn gan gynnwys un efo Côr Meibion Mansfield a Chôr Caerdybi rywdro tua Mehefin -daw mwy o fanylion ymhellach ymlaen. Wedyn bydd wythnosau prysur yn wynebu'r aelodau.

Siaradodd Myfyr Parry, yr Ysgrifennydd, ar y radio yn ystod Chwefror gan ganolbwyntio ar ymgyrch y Côr i godi nifer yr aelodau. Ar hyn o bryd 35 o aelodau sydd yn y Côr ar ôl bod yn 50 ryw dair blynedd yn ôl. Ond rydym wedi colli llawer oherwydd salwch ac yn y blaen fel sydd i'w ddisgwyl mewn unrhyw gymdeithas.

Nid ydym angen côr mawr ond mae gwir angen aelodau newydd. Felly os oes unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymuno â chôr brwdfrydig sydd yn cael llawer o gyngherddau ac yn sicr, un sydd yn teithio llawer, byddwn yn cyfarfod yn wythnosol yn Ysgol y Faenol, Penrhosgarnedd am 7.30pm a bydd croeso mawr yno yn eich disgwyl.

Ers cychwyn y Côr yn 1988 yr ydym wedi teithio i ganu yng Nghanada, Yr Almaen, Cyprus, Yr Unol Daleithiau, Malta, Awstria (tair gwaith gan gynnwys y llynedd), a Gogledd Iwerddon yn ogystal â Chymru a Lloegr.

Nyth y Gân

Cynefinoedd

Fe'i codwyd â cherrig naturiol
Yn hedd unigeddau y cwm
Gan ddwylo'r genhedlaeth lafurus,
A'i furiau yn drwchus a llwm.

Y mynydd gofleidia ei fwthyn
A'r awel a sigla y brwyn,
Cydganu mae dyfroedd y nentydd,
Does unman â chymaint o swyn.

Bob gwanwyn ymwelydd ddaw yno
I ganu dau nodyn mor fyw,
Caiff hefyd gwmpeini y ferlen
Ddaw eto i ddangos ei chyw.

Cartrefol yw'r frân yno hefyd,
A'i chrawc sydd yn cario o bell
Uwch llwybrau a berthyn i'r cadno
Sy'n gwrandio yn astud o'i gell.

Ac wedi i'r nosweithiau ymestyn
Daw'r oenig yn gryfach ei fref,
Ac yntau'r ehedydd gaiff ganu
Gan ddringo yn uchel i'r nef.

Diguro yw'r harddwch sydd yno
Ymhell o ffug bethau y byd;
Mae troedio'r mawngogydd a'r mynydd
Fil brafiach na cherdded y stryd.

Y Fro Gymraeg Erstalwm

Yr hen oes roddai groeso i gynnal
Y gân gylch y piano
I'w thaenu'n uniaith yno
Fel gwllith yn frith hyd y fro.

Y Friallen

Mae'r haul wedi meirioli y wenwisg
I'r gwanwyn sirioli,
A llwyddodd Ef i roddi
Y paent ar ei hwyneb hi.

Y Sied a'r Sgwrsio Difyr

Un ffenest fach oedd iddi
Fesurai ddwy wrth ddwy,
Am hynny, prin fu'r golau
A roddid iddynt hwy.

Bu sawl addurnwr tawel
Yn brysur â'i fain we
Yn gwau ei rwydi cywrain
Am oriau hyd y lle.

Y celfi i gyd oedd segur
A'i stori gan bob un,
A'r llwch yn eu gorchuddio
Wrth iddynt fynd yn hŷn.

Ond nid oedd llwch ar dafod
Y gwŷr fu sawl prynhawn
Yn trin a thrafod ynddi
Eu diddordebau llawn.

Y gwir oleuni gafodd
Y sied o'i llawr i'w tho
Gan eiriau llên ein cerddi
O galon carwyr bro.

Ac fel yr hen bryf copyn,
Gwau hefyd fu'r criw bach
Mor gywrain â'i rwyd yntau
Ddiwylliant bywiog, iach.

Dafydd Morris

Teipiwyd un o englynion Dafydd yn wallus yn rhifyn Chwefror, felly dyma ei ailgyhoeddi yma gydag ymddiheuriad.

Y Gloch

Weithiau'n lleddf ac weithiau'n llon,
o'r hen dŵr

Mae'n galw'r trigolion;
Chwilia â thinc ei chalon,
Llety pwy all ateb hon?

WU SHU KWAN

Bocsio Cic Tsieineidd (Kung Fu)

Dosbarthiadau
yng Nghanolfan
Gymdeithasol
Tregarth bob
nos Fercher
7.00 tan 9.00

Un sesiwn am ddim os dewch
â'r hysbyseb hwn hefo chi

◆ Croeso i bawb, yn arbennig dysgwyr ◆
Manylion gan Jake neu Elena
Fitzpatrick - 01248 602416
neu galwch heibio'r dosbarth

Ar werth

*Olwyn Nyddu
Cadair a chribau*

**Pris i'w drafod
Ffôn: 600744**

Meithrin menter gymdeithasol leol

Am gymorth:

i sefydlu menter
i gynnal gweithdai
i geisio am arian
i redeg mudiad
i wirfoddoli

cysylltwch â

Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851 Cofrestrwyd yng Nghymru
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271



Tir a Bro

Gwasanaeth ymgynghorol cymunedol

Cefnogaeth hyblyg i grwpiau cymunedol
ar unrhyw gam o ddatblygiad prosiect

Am fwy o wybodaeth,
cysylltwch â Mair Watts
Ffôn : 01766 771 382 / 07785 957 511
E-bost : tirabro@btinternet.com

BARBWR OGWEN



Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

Cerbydau Penrhyn
CABIAU A BYSIAU MINI
Ffôn: (01248) 600072
Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau
Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwllans Gogledd Cymru

Modurdy Central
Ceir ail-law ar werth
M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031

electricals
andrew duggan
Atgyweiriadau teledu a fideo,
offêr sain, derbynwyr lloeren.
Hefyd gwerthiant a gwasanaeth
38 Stryd Fawr, Bethesda LL57 3AN
Ffôn/Ffacs 01248 602584

**Gwasanaeth Trin
a Thorri Gwallt Ceri**
 1 Bryn Eglwys
Llanllechid
Gwynedd
LL57 3LE
Ffôn: 07796 583 203

Y Douglas Arms
* Lluniaeth i Bartïon * Te Cynhebrwng *
* Gardd Gwrw * Te a Choffi *
Oriau Agor
Llun – Gwener: 6.00 – 11.00
Sadwrn: 3.30 – 12.00
Sul: Pnawn 1.00 – 4.00, Hwyr 8.00 – 11.00
01248 600219
www.douglas-arms-bethesda
Cewch groeso cynnes gan
Gwyn, Christine a Geoffrey

CAFFI COED Y BRENIN
1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550
Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)
Cinio arbennig bob dydd Iau
Bwyd i'w gario allan
Gwasanaeth arlwyo ar gyfer
partïon o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)
Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd
Prisiau rhesymol

“J.R.”
SGAFFALDWYR
Yr Iard, Ffordd Stesion
Bethesda
Ffôn: (01248) 601754
Dyma ni - sgaffaldwyr o fri

**MODURON
PANDY
Cyf.**
Tregarth
Gwasanaeth ♦ Atgyweirio
Canolfan 'Unipart'
M.O.T.
Ffôn: 01248 600619 (dydd)

BISTRO'R BRENIN
(Bwyty Trwyddedig)
Rydym yn croesawu partïon
o bob math – dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?
Ffoniwch
01248 602550
e-bost : karena@agoriad.org.uk

**MODURDY
FFRYDLAS**
 Profion
M.O.T.
Perchenogion
I.D.Hughes ac A. Ll. Williams
Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦
GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN
☎ 600723
Ffacs: 605068

Sefydlwyd 1969
**m.hughes
a'i fab**
CONTRACTWYR TOI
2 Hen Aelwyd, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.

**Gorsaf betrol
BERAN**
Deiniolen
Ffôn: Llanberis 871521
Ar agor bob dydd 24/7
Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau newydd
Cardiau pen-blwydd • Melysion
Tocynnau loteri
Gwasanaeth PAYPOINT ar gyfer
trydan, nwy, ffônau symudol,
trwyddedau teledu ayyb

Blodau Hyfryd
7 Rhes Buddug, Bethesda
☎ ☐ 602112 (gyda'r nos 602767)
Blodau ar gyfer pob achlysur
Priodasau, Angladdau ayyb
Ffres a Sidan
Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'

BYSUS
D. J. Owens
RHIWLAS
01248 361044 a 07771 634195

BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.
Bysus Gwyrdd Rhiwlas
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Croesair Mawrth 2012

AR DRAWS

1. Y brenin oedd yn ŵr i Jesebel yn yr Hen Destament. (4)
4. Roedd yn byw yng nghartref 'deryn du ac yn rhedwr chwim yn ôl traddodiad (4)
8. Ardderchog ! (4)
9. Daeth offeiriad eglwysig o bwys i'r plwyf. Cafwyd côr a chân i ddiddori'r ymwelydd. (9)
11. Un sydd yn dibrisio ac anharddu ei amgylchedd. (6)
13. Mi roddwn yr hen ddodrefn a'r coed i gyd i wneud un ----- mawr ar noson Guto Ffowc. (7)
15. Hen gân draddodiadol Gymraeg, "--- Bo ---". (3,3)
16. Un loergan yn ôl Caradog Pritchard. (3,3)
18. Pysgodyn yn y bae yng ngogledd Llŷn. (6)
20. ----- rhywun yw rhoi ei wala a'i weddill iddo. (6)
22. Mae genod Alun bach wedi mynd yn ôl i fyw i sir yng ngogledd orllewin Iwerddon. (7)
23. Mae'r cyntaf o'r unfed ganrif ar hugain wedi mynd. (6)
25. "Tecach ---'--- dlos". (2,2'1,4)
26. Dydi papur bro Llŷn ddim yn sych i mewn nac allan, does bosib ! (4)
27. Y dyfodol. (1,3)
28. Oes gen ti gliw sut mae'r ddau wedi aros efo'i gilydd ! (4)


ILAWR

2. Cymraeg am un o ddeuddeg arwydd y sidydd. (4)
3. Pentre Ifan yn Sir Benfro a Bryn Celli Ddu yn Sir Fôn. (6)

4. Tynnu'r sudd o'r grawnwin i wneud gwin. (6)
5. ----- Cancr i'r gogledd ; ----- yr Afr i'r de. (6)
6. Dywed rhai mai cymeriadau - ----- yw'r brenin Arthur a'r dewin Myrddin. (9)
7. Os y daw storm, ewch i lechu yn ôl ar ben y mynydd. (4)
10. Digalon ac wedi drysu os na chaf gwmni i ddathlu'r Wyl. (7)
12. Y gwres a'r heulwen. (1,3)
13. Miwsig y mynach ! (9)
14. Disgrifiad o'r graig yn emyn mawr Morswyn, "Arglwydd Iesu, arwain f'enaid..." (7)
17. Gwisg yr un sy'n 13 ILawr. (4)
19. Efo hon, gall y pwythau ddod yn waith o gelfyddyd. (6)
20. Buasai'n well i Mr. Morgan gael ci i'w cadw mewn trefn ! (6)
21. Fforchog. (6)
23. Yr hyn ddigwyddodd i Saul o Tarsis ac i Samson. (4)
24. Cafwyd deg ohonynt yn yr Aifft ! (4)

ATEBION CROESAIR CHWEFROR 2012

AR DRAWS 1. Marc; 5. Alec; 7. Anwylyd; 8. Seindorf; 10. Rwan; 12. Hesg; 14. Dresel ddu; 16. Anhysbys; 17. Ddogn; 18. Gordd; 19. Brawychus; 22. Arglwydd; 23. Llaes; 24. Isaf.
ILAWR 1. Mans; 2. Carn; 3. Gwroldeb; 4. Claf; 5. Adar cerdd; 6. Corn; 9. Eneinio; 11. Arddegau; 13. Gwyrddlas; 15. Erstalwm; 18. Gwell; 19. Begw; 20. Ynddi; 21. Saif.



Roedd y cliw am yr adar wedi taflu rhai ohonoch y tro hwn. Yr ateb a ddisgwyliwn ac a gafwyd gan y mwyafrif oedd 'adar cerdd', ond 'adar gardd' oedd y cynnig gan rai. Mae'r hen ddywediad 'rhoi fy nhraed ynddi' yn gyfarwydd iawn, ond roedd un neu ddau am 'roi fy nhraed ynddo' ! Ta waeth, ychydig iawn o gamgymeriadau a gafwyd. Llongyfarchiadau i Karen Williams, 15 Henbarc, Llanllechid, Bangor LL57 3RS am fod y cyntaf allan o'r het i gael y wob. Da iawn chwithau'r canlynol am fod yn hollol gywir : Menna Davies, Llanfairpwll; Jean Vaughan Jones, Heulwen Evans, Rhiwlas; Elfed Evans,

Llanllechid; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Doris Shaw, Bangor; E. E. Roberts, Llanberis; John a Meirwen Hughes, Abergele; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Rita Bullock, Bethesda; Dulcie Roberts, Elizabeth Buckley, Tregarth. Atebion erbyn 7 Ebrill i 'Croesair Mawrth', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda. LL57 3PD.

Enw:

Cyfeiriad:

Yr Home Guard



Dyma lun o Home Guard Bethesda yn 1943. Tybed a all rhywrai ohonoch roi enwau i'r wynebau. Diolch i Gwen Davies am y llun.

O'r Cyngor

Cyngor Cymuned Bethesda

Llwybrau Cyhoeddus 1A a 51

Llythyr a map yn hysbysu bod bwriad gan Gyngor Gwynedd i wella'r llwybrau gan eu bod yn mynd i gysylltu Lôn Las Ogwen â'r pentref. Maent ar hyn o bryd yn cael trafodaethau gyda thirfeddianwyr a phobl eraill gyda buddiannau yn yr ardal. Penderfynwyd derbyn yr wybodaeth.

Mantell Gwynedd

Cymraeg Efo'n Gilydd-Cynnig grant hyd at £100 o bunnoedd i hyrwyddo dysgwyr i gymryd rhan mewn cyfarfod o fudiadau lleol. Gellir talu am siaradwr gwadd, cost ymweld ag atyniad lleol, sleidiau, ffilm, cwis, gosod blodau, taith gerdded ac yn y blaen. Penderfynwyd derbyn yr wybodaeth.

Archeb y Cyngor (£51245).

Golyga hyn mai cyfraniad blynyddol 2011-2012 annedd band 'D' ym Methesda fydd £31.72 tuag at anghenion y Cyngor Cymuned. Hynny yw, £31.72 y flwyddyn neu £2.64 y mis.

Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Rhybudd o flaen llaw y bydd y Cyngor yn adolygu mapiau mynediad agored yn 2012 ac y byddant yn ymgynghori ar eu cynnwys. Penderfynwyd derbyn yr wybodaeth.

Cafwyd cadarnhad gan Gyngor Gwynedd (Swyddogion Llwybrau Cyhoeddus) eu bod wedi ymholi yn y gorffennol â'r adain Goleuo Stryd am sefyllfa'r lamp golau ar y llwybr o Ffordd Pant Glas hyd at yr A5. Ni ellir gwneud dim i'w wella.

Cadarnhawyd hefyd y bydd gwaith ail-roi wynebu i'r llwybr â tharmac yn digwydd yn fuan. Cadarnhaodd hefyd y bydd y gwaith o wella draenio dŵr ar y llwybr sy'n rhedeg o'r A5 i Bont Sarnau yn cael ei wneud fel rhan o gynllun y llwybr beicio newydd. Penderfynwyd derbyn yr wybodaeth.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ymgynghoriad ar y Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) Bwriad i greu

mesur bydd yn ei gwneud yn haws i Gynghorau greu is-ddeddfau lleol a modd iddynt gael eu gorfodi drwy roddi hysbysiad cosb benodedig. Penderfynwyd cefnogi'r bwriad.

Cynllun Datblygu lleol ar y cyd rhwng Gwynedd ac Ynys Môn

"Datblygu'r weledigaeth, Prif Amcanion ac Opsiynau Strategol". Adroddiad yn gofyn am farn y Cyngor ar ffurf holiadur ar yr agwedd o'r cynllun sy'n delio gyda sut y dylai'r ardal ddatblygu o ran nifer unedau tai a'u lleoliad. Cafwyd is-bwyllgor i drafod y mater a chwblhawyd yr holiadur.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Datganiad ysgrifenedig o "Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2007-2022". Cafodd y cynllun ei fabwysiadu ar 13eg o Orffennaf 2011. Gellir derbyn copi o'r adroddiad ar gryno-ddisg yn ogystal. Ceir manylion pellach drwy gysylltu â'r Parc ar dyfodoleryri@eryri_npa.gov.uk

Llwyddo yn Lleol

Mae'r prosiect Llwyddo'n Lleol wedi ei sefydlu i bobl ifanc rhwng 11-19 oed (grwpiau neu unigolion) yng Ngwynedd. Prif nod y rhaglen hon yw annog pobl ifanc i ddatblygu'r sgiliau a'r hyder i fod yn fentrus o fewn cyflogaeth a hunangyflogaeth, ond yn allweddol, i wneud hyn o fewn eu cymunedau lleol. Gellir cael fwy o fanylion drwy gysylltu â Lois Jones ar 01248 672656 neu lois.jones@menterabusnes.co.uk.

Cyngor Cymuned Llanllechid

Cynhaliwyd cyfarfod mis Chwefror yn Neuadd Talgai, Llandygái gyda'r Cyng. Kevin Glyn Williams yn y Gadair.

Croesawyd Hywel Williams AS i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, y Cyng. Kevin Glyn Williams. Diolchodd Hywel Williams am y croeso, yna fe esboniodd rhai materion y mae'n ymwneud â hwy yn y senedd ar hyn o bryd, a hefyd ychydig o'i gefndir ei hun.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â materion yn ymwneud â'r gymuned leol ac yng ngogledd Cymru megis diffyg gwasanaeth bysiau yn lleol, sefyllfa diweithdra ymysg yr ifanc, gwasanaeth band-eang mewn mannau yn yr ardal, yn ogystal â digwyddiad yn Nhŷ Newydd, Llandygái.

Yn ymateb i gais y cyngor cymuned ynglŷn â chyflwr gwael pontydd llwybrau rhifau 9 a 14, fe gafwyd ymateb gan y cyngor sir yn dweud bod dwy bont wedi eu harchebu ac y byddent yn cael eu gosod yn y flwyddyn ariannol newydd.

Derbyniwyd gwahoddiad i ddatlu Jiwibili'r Frenhines i Wasanaeth o Ddiolchgarwch yn y Gadeirlan Bangor ar 25 Chwefror 2012 ond nid oedd yr un cynghorydd yn gallu mynychu.

Derbyniwyd manylion am asiantaethau a chymdeithasau a oedd wedi derbyn nawdd ariannol yn y flwyddyn 2011 gan Cist Gwynedd. Aeth y Cyng. Dafydd Meurig â'r pamffled er mwyn ei rannu gyda Phwyllgor Trigolion Talybont.

Derbyniwyd gwybodaeth gan Un Llais Cymru eu bod wedi penodi Swyddog Datblygu a Hyfforddi Gwynedd sef Cerys Thomas.

Cyngor Cymuned Llandygái

Cynhaliwyd cyfarfod Chwefror yng Nghanolfan Tregarth gyda'r Cynghorydd Rhys M. Llwyd yn y gadair.

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Mr Hywel Williams AS a chafwyd anerchiad a thrafodaeth fuddiol iawn. Mae bob amser yn gweithio'n ddygn i gadw swyddi yn yr ardal a bydd yn parhau i wneud hyn yn y dyfodol.

Cafwyd ar ddeall fod arwyddion i gael eu gosod ar yr A5 gerllaw y gyffordd i Dregarth. Mae'r arwyddion a gafodd eu fandaleiddio wedi cael sylw gan y Cyngor Sir. Gwnaethpwyd trefniadau i atgyweirio ffens ar un o'r llwybrau a hysbysir y Cyngor Sir o lecynnau ble mae ysbwriel angen sylw.

Mae parcio ar y glaswellt yn parhau'n broblem, yn enwedig gerllaw cyffyrdd. Hefyd ceisir cael gostwng cyflymder ar y ffordd o Bont Tŵr i Dregarth.

Bydd y llwybr o Grisiau Cochion i Bont yr Inn yn cael ei gau dros dro tra byddir yn gwella'i wyneb.

Cyngor Cymuned Pentir

Cyfarfu'r Cyngor yn Eglwys Sant Pedr, Penrhosgarnedd gyda'r Cyng. Marred Jones yn cadeirio.

Cyflymder A4244
Adroddodd y Clerc fod

deiseb a gasglwyd gan Grŵp Parchu Pentir ynglŷn â cheisio cyfyngu ar gyflymdra gyrru ar y ffordd yma wedi ei rhoi yn nwylo'r Cyngor Sir.

Cynllunio

Nid oedd gwrthwynebiad i godi estyniad i Dŷ Mel, Caerhun.

Torri Gwair

Derbyniwyd dau bris ar gyfer torri gwair y cae chwarae yng Nghaerhun yn ystod misoedd Gwanwyn a Haf 2012. Wedi trafodaeth penderfynwyd cynnig y gwaith i Mr Gwynfor Williams, Rhiwlas.

Statws Ffordd Ger y Vaynol

Yn dilyn cais drwy law Parchu Pentir fe holodd y Cyngor Cymuned am statws y ffordd yma gyda'r bwriad o'i hagog fel llwybr i gerddwyr o gylch Rhiwlas. Wedi cyfarfod gyda Mr Iwan ap Trefor a Mrs Mai Jones o'r Cyngor Sir ar y safle, nid oedd y Cyngor Sir yn hapus i argymhell ei defnyddio gan fod y fynedfa/allanfa i'r safle mewn lle peryglus ar y ffordd A4244. Soniodd Mr ap Trefor y byddent yn ystyried cynllun i greu llwybr newydd ar hyd ochr pentref Rhiwlas, sef y ffordd i lawr am Rydygroes ac ymuno â'r hen ffordd yn y fan honno.

Wedi trafodaeth yn y cyngor penderfynwyd holi'r Cyngor Sir ymhellach ynglŷn â'r cynllun yma.

Cyfraniadau Ariannol

Derbyniwyd nifer o geisiadau gan fudiadau am roddion ariannol gan y cyngor. Wedi trafodaeth penderfynwyd rhannu fel a ganlyn:

£1000 - Apêl Bangor/
Penrhosgarnedd Eisteddfod yr Urdd 2012,
£500 at Apêl parc antur Ysgol Y Garnedd,
£200 at Apêl Rhiwlas/Pentir yr Eisteddfod,
£175 Y Goriad, £100 - Gofal Marie Curie ac Eisteddfod Genedlaethol 2012,
£75 - Eisteddfod Dyffryn Ogwen, £50 yr un i'r Cymdeithasau canlynol, Cymdeithas Cefnogi Dioddefwyr, Cruise (Gofal mewn galar), Cymdeithas Croes Ffordd, Radio Ysbyty Gwynedd a Chymdeithas Cyfeillion y Samariaid.

Cwmni Bysiau Padarn

Nododd y Cyng. D.H. James nad oedd sefyllfa defnyddio yr iaith Gymraeg ar fysis y cwmni wedi newid ers i'r Cyngor dynnu sylw y Cyngor Sir at y broblem. Dywedodd y Cyng. Dewi Roberts ei fod wedi sylwi mai uniaith Saesneg yw pob arwydd o fewn y bysiau, rhai ohonynt yn ymwneud ag Iechyd a Diogelwch. Penderfynwyd cysylltu unwaith eto gyda'r Cyngor Sir.

Tair Her

Byth eto! Dyna'r geiriau sy'n chwyrlio yn fy mhen wrth i mi ddisgyn fel carreg a dod i stop ben i lawr uwchben camlas Salford Quays!
Ia – fi sydd yn y llun yn neidio naid 'bungee' 160 troedfedd i godi arian i 'Project Trust'.

Mali Parry-Owen ydw i, disgybl chweched dosbarth Ysgol Dyffryn Ogwen ac yn byw yn Rhiwlas. Rwyf wedi cael fy nerbyn yn wirfoddolwraig i'r elusen 'Project Trust' o'r Alban.

Yr haf yma gobeithiaf gwblhau yr ail sialens - mynd am flwyddyn gyfan i wlad Hondwras yng Nghanolbarth America i weithio gyda phlant ac oedolion difreintiedig.

Fel y gwyddoch drwy eitemau newyddion yn ddiweddar, mae Hondwras yn un o'r gwledydd mwyaf tlawd a helbulus yn y byd a bydd fy mlwyddyn yno yn sialens yng ngwir ystyr y gair.

Ond cyn hynny rhaid imi wynebu'r drydedd sialens sef codi £5100 i 'Project Trust'. Bydd yr arian yn helpu i dalu am y prosiectau addysg yn Ardal Lempira, Hondwras, am y costau teithio, a hefyd am lety gyda theulu lleol am y flwyddyn.

Yn barod mae pobl yr ardal wedi bod yn hael yn fy nghefnogi trwy noddi'r naid, ac rwy'n cymryd y cyfle yma i ddiolch i bawb, yn arbennig felly staff Ysgol Llanllechid, Ysgol Dyffryn Ogwen a Mrs Helen Williams, Capel Carmel, sydd wedi trefnu te ac adloniant Dydd Gŵyl Ddewi i godi arian.

Ond wrth gwrs mae llawer iawn o arian eto i'w gasglu. Byddwn yn ddiolchgar iawn am unrhyw gyfraniad neu syniadau am sut i godi arian.

Gallwch fy noddi ar <http://uk.virginmoneygiving.com/maliparry-owen> neu fedrwrch gysylltu efo fi am fwy o fanylion drwy fy ngalw ar 01248 354812, ysgrifennu ataf i Aralia, Waen Pentir, Bangor, Gwynedd LL57 4EH neu fy e-bostio ar malimina@fsmail.net

Plis, peidiwch â gwneud imi neidio bynjee eto!



Capel Carmel yn cefnogi Ymgyrch Hondwras



Bu pobl ifanc Capel Carmel, Llanllechid yn frwd iawn eu cefnogaeth i Mali Parry Owen sydd sy'n paratoi i fynd i Hondwras i weithio'n wirfoddol yno dros gyfnod o flwyddyn. Trefnwyd gweithgaredd Miri Mawrth yn y capel, i'w gynnal ar 23 Mawrth i godi arian at y fenter. Gewch draw i gefnogi. (Manylion yn Newyddion Rachub a Llanllechid).

Marie's Mobile Tans

Lliw Haul Chwistrell

Corff cyfan £20
07518177080

**Tony
Twomey**

**Peintiwr ac
Addurnwr
Trwyddedig**

**Gwneir unrhyw waith,
mewnol ac allanol.**

Ffôn Symudol:
07796 156829
Tŷ: 01248 602039



SAMARIAID

Allech chi fod yn Samariad?

Hoffai'r Samariaid ym Mangor eich gwahodd i'r
Diwrnod Agored a gynhelir yng Nghanolfan y Samariaid,
5A Llys Onnen, Parc Menai.
Dydd Sadwrn 17eg Mawrth
Rhngwng 10am a 3pm

Am ragor o fanylion e-bostiwch bangorsamaritans@yahoo.co.uk
neu ffonio 01248 674985 rhngwng 3pm a 5pm (Llun-Sadwrn)

Edrychwn ymlaen at eich cyfarfod

D. E. HUGHES a'i feibion cyf

**YMGYMERWYR ADEILADAU
N.H.B.C.**
Gardd Eden, Stryd Fawr,
Rachub, LL57 3HF

Ffôn a Ffacs 01248 602010

Malinda Hayward (Gwniadwraig)

**Awel Deg
Penygroes, Tregarth.**

**Am unrhyw waith gwnïo
- trwsio, altro ac ati -**

**Ffoniwch
01248 601164**

SAER I.D.R. JOINERY Busnes Ifanc Cymraeg Lleol

Am waith saer o safon uchel a
phris diguro
Cysylltwch ag IWAN



07553 977275



01248 602062

Cymwysedig a phrofiadol ym
mhob agwedd ar waith saer.
Dibynadwy a chyfeillgar.

L. Sturrs a'i feibion

sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Ffôn: 600953

Ffacs: 602571

Pob math o waith trydanol

Huw Jones

Ymgymwr Trydanol

Trydanwr cymwysedig gyda
phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda
Gwynedd LL57 3ST

Ffôn: 01248 602480

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy
losgi coed

01248 605207

Oriel Cwm

Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o
bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol
Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882

RICHARD S. HUMPHREYS



Tudur Owen, Roberts, Glynne a'u cwmni



**DEWCH I WELD
EICH
CYFREITHIWR
LLEOL**

**SGWÂR BUDDUG
STRYD FAWR
BETHESDA
GWYNEDD
LL57 3AG**



**BETHESDA
01248 600171**

torgbethesda@hotmail.co.uk

Cyfreithwyr

**Y CYNGOR CYNTAF
AM DDIM**

**EWYLLYSIAU A
PHROFIANT**

SYMUD TŶ

OWEN'S TREGARTH Cludiant Preifat a Bws Mini



Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr

01248 602260

07761619475

pandv.owen@btinternet.com

Tony Davies Plymio a Gwresogi

Tŷ Capel Peniel, Llanllechid
Rhif Corgi 190913

Symudol 078184 10640

01248 601 466

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257

Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



CYNGHERDDAU EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD, ERYRI

IEUENCTID YR ARDAL YN BAROD AM SBRI!

Mae Urdd Gobaith Cymru wedi cyhoeddi arlwy arbennig iawn o sioeau a chyngherddau ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Eryri 2012. Bydd gweithgareddau'r ŵyl yn cychwyn gyda chynhyrchiad newydd sbon gan Gwmni'r Frân Wen wedi ei lwyfannu gan ieuencid Eryri yn Galeri, Caernarfon (Gwener, 1af Mehefin – Llun, 4ydd Mehefin). Lleolir 'Sbri!' mewn ysgol uwchradd lle mae criw o ddisgyblion yn gwirioni ar ganu a dawnsio, a bydd y perfformiad yn cynnwys amrywiaeth o ganeuon poblogaidd Cymraeg wedi eu haddasu mewn arddulliau cyfoes. Beth Angell sy'n gyfrifol am y sript, gydag Iola Ynyr yn Cyfarwyddo ac Owain Gethin Davies yn Gyfarwyddwr Cerdd y sioe sydd eisoes wedi ei chyffelybu i'r fersiwn Gymraeg o'r sioe Americanaidd boblogaidd, Glee. Mae 130 o ieuencid ardal Eryri yn rhan o'r sioe ac mae'r ymarferion eisoes ar droed.

Rhys Meirion, Tudur Owen, Côr Glanaethwy a Chwmni Dawns Bangor fydd rhai o'r sêr fydd yn diddanu yn y Pafiliwn fel rhan o Gyngerdd Agoriadol Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Eryri nos Sul, 3ydd o Fehefin. Yn ogystal, bydd enillydd Ysgoloriaeth Bryn Terfel, Glain Dafydd, yn rhan o'r arlwy gwyhych o berfformwyr lleol, talentog ynghyd â Phedwarawd o gyn-enillwyr yr Urdd sef John Eifion, Helen Medi, Iwan Wyn Parry a Sian Eirian. Bydd côr o aelwydydd yr ardal hefyd ar lwyfan prifwyl yr ieuencid yn ogystal â chast y sioe ysgolion cynradd a'r sioe ieuencid. Bydd rhagor o enwau yn cael eu cyhoeddi'n fuan.

Bydd plant ysgolion cynradd yr ardal yn diddanu yn y pafiliwn nos Fawrth a nos Fercher, y 5ed a'r 6ed o Fehefin gyda'u dehongliad hwy o hanes ardal Eryri dros y blynyddoedd. Gydag ymhell dros 300 o blant eisoes yn ymarfer ar gyfer y sioe 'Ar Gof a Chadw', bydd y sioe yn siwr o fod yn achlysur i'w gofio i'r perfformwyr a'r gynulleidfa fel ei gilydd. Ken Hughes fydd yn Cyfarwyddo ynghyd â thim cryf o athrawon a gwirfoddolwyr.

Mae tocyn yn £12 ac ar gael drwy ffonio 0845 257 1639 neu urdd.org/eisteddfod

Meddai Aled Siôn, Cyfarwyddwr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, "Mae'n bleser cyhoeddi arlwy gyffrous a chanddo apêl eang ar drothwy Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Eryri. O'r foment y seinir y nodyn gyntaf yn Galeri, Caernarfon nos Wener, y 1af o Fehefin, gallwn edrych ymlaen at berfformiadau o safon fydd yn diddanu ac yn creu bwrlwm. Mae'r ymarferion eisoes wedi cychwyn ar gyfer 'Sbri!' ac 'Ar Gof a Chadw' ac edrychwn ymlaen at ddilyn eu cynnydd dros y misoedd nesaf."

Mae tocyn yn £12 ac ar gael drwy ffonio 0845 257 1639 neu urdd.org/eisteddfod. Mae tocynnau ar gyfer y Maes hefyd ar werth gyda nifer o gynigion arbennig ar wefan yr Eisteddfod www.urdd.org/eisteddfod.

Cynhelir Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Eryri 2012 ar safle Coleg Llandrillo, Glynllifon rhwng y 4ydd a'r 9fed o Fehefin. Cydnabyddir nawdd Cyngor Celfyddydau Cymru i 'Sbri!' ac 'Ar Gof a Chadw'.

Canolfan Amgylcheddol Moelyci



Rhestr Digwyddiadau a Chyrsiau

Mae rhai o'r cyrsiau hyn yn rhad ac am ddim ond mae'n rhaid talu am rai ohonynt. Os oes gennych ddiddordeb ac yn awyddus i ymuno â rhai o'r gweithgareddau cysylltwch â'r Ganolfan ar 01248 602793. e-bost : office@moelyci.org

Nyddu Uwch :	18 Mawrth. 9.30 yb – 4 yp.
Ffotograffiaeth i Ddechreuwr :	20 Mawrth. 10 yb – 4yp
Sbloets o Lyffantod Duon :	19 a 26 Mawrth. 2 Ebrill. Dechrau am 6 y.h.
Adnabod Mwsoglau (cyflwyniad) :	22 a 23 Mawrth. 10 yb – 4 yp.
Madfallod (cyflwyniad) :	27 Mawrth. 7.30 yh.
Llwybr Bywyd Gwyllt y Pasg :	7 Ebrill. Dechrau am 11 yb.
Adar Lôn Las Ogwen :	12 Ebrill. Cychwyn am 10 yb.
Gweithdy Adeiladu Popty Pizza Traddodiadol :	14 Ebrill. 10yb – 4yp
Arolwg Cynefin Cam 1 : cyflwyniad.	16 a 17 Ebrill. 9.30yb – 4yp.
Bywyd Nos Lôn Las Ogwen.	19 Ebrill. Cychwyn am 7.30yh.
Deall Gwehyddu.	21 a 22 Ebrill. 9.30yb – 4yp.

CHWILAIR MIS MAWRTH

A	A	L	A	B	D	O	F	D	D	E	T	S	I	E	A	P	W	F	F
H	R	I	E	J	L	C	M	B	V	B	H	X	J	U	I	E	S	F	V
S	H	E	I	M	G	V	H	M	D	W	H	U	Z	M	X	N	V	L	A
D	M	E	K	L	I	P	N	F	E	C	R	D	Y	W	R	B	T	A	D
N	A	P	A	U	Q	U	S	O	F	R	P	D	Y	Q	Z	E	R	N	G
R	H	C	U	M	W	N	O	Y	R	I	Y	A	S	Z	U	D	A	D	T
F	D	X	U	P	W	R	H	C	Q	F	H	W	E	H	O	W	W	R	Y
E	E	G	E	O	M	H	E	P	F	T	T	C	B	B	C	U	S	Y	U
J	P	L	T	M	I	V	V	R	D	C	B	B	F	R	F	O	F	S	G
J	V	I	I	R	R	X	Y	I	M	N	H	T	T	O	S	K	Y	O	P
W	R	C	M	K	C	N	B	O	R	C	R	X	V	R	Y	H	N	S	T
M	R	E	F	Y	J	D	Z	H	B	C	W	W	O	S	C	R	N	A	I
X	N	I	L	X	J	J	M	B	W	T	E	X	G	M	D	X	Y	K	F
U	U	N	N	A	W	U	N	C	H	W	E	C	H	S	P	C	D	Q	Y
G	O	R	F	F	E	N	N	A	F	O	I	L	F	E	Y	R	D	Z	Q
R	O	C	T	D	G	W	S	L	Z	E	B	E	A	J	K	R	I	C	L
N	L	H	T	I	A	S	H	T	Y	W	H	T	Y	W	N	U	Y	R	V
O	S	N	A	V	E	Y	E	R	H	P	M	U	H	S	I	L	L	E	G
J	P	M	A	R	Y	E	V	A	N	S	W	P	G	S	O	W	J	J	Q
U	L	F	S	V	T	X	E	U	G	H	S	L	Z	E	A	F	X	I	W

Ymgynghori â'r Gymuned

Y Datblygiad Arfaethedig yn Chwael y Penrhyn, Bethesda

Fel rhan o'r broses ymgynghori cyn-cyflwyno-cais, cynhelir arddangosfa gyhoeddus yn y mannau â ganlyn:

- ❖ Neuadd Goffa Mynydd Llandygái, Arafon, Mynydd Llandygái, Bethesda LL57 4LQ
Dydd Llun, Ebrill 2, 2012 o 12.00 pm tan 8.30 pm
- ❖ Clwb Rygbi Bethesda, Ffordd y Stesion, Bethesda, LL57 3NE
Dydd Mercher, Ebrill 11, 2012 o 12.00 pm tan 8.30 pm

Os bydd gennych chi unrhyw gwestiynau cyn yr arddangosfa gyhoeddus, neu'n dilyn hynny, mae croeso i chi gysylltu efo Mr J B Hill, SLR Consulting, 8 Parker Court, Staffordshire Technology Park, Beaconside, Stafford, ST18 0WP, E-bost: enquiries@slrconsulting.com

Hedd Wyn yw testun y chwilair y mis yma. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddarganfod y gweddill. (Mae LL, CH, DD, TH ac yn y blaen) yn un llythyren yn y Gymraeg, ond at ddiben y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân.

Atebion gyda enw a chyfeiriad i Andre Lomozik Zakopane, 7 Rhos-y-coed Bethesda, Gwynedd LL57 3NW. Erbyn 7 Ebrill os gwelwch yn dda. Bydd gwobr o £5.00 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi darganfod y deuddeg yna'r nifer agosaf fydd yn cael y wobr.

**Hysbysebwn yn y
Llais: Cysylltwch â:
Neville Hughes
600853**

JOHN ROBERTS



**Paentiwr
Papurwr
Teilsiw**

**Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995**



**Posh Paws
Tacluso Cŵn**

Busnes lleol

Prynhawniau neu Nosweithiau
4.00 - 10.00
Dydd Sul 8.00 a.m - 4.00 p.m.
Gwasanaeth casglu a danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
01248 671382 neu **07935324193**
Ebst: juliaposhpaws@btinternet.com

**LONDIS
BETHESDA**

☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

Blodau Racca

PENISARWAUN

*Planhigion gardd a basgedi crog o'r
ansawdd gorau
- gan hogan o Rachub*

Ffôn: 01286 870605

Gareth Williams
Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

Ffôn: (01248) 600763 a 602707
GWASANAETH DYDD A NOS

**Ymgymwrw adeiladu a
gwaith saer**

Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda

☎ 01248 601052

SIOP BARBWR

MR TOM

78 Stryd Fawr
Bethesda

Torri gwallt Dynion a Phlant
gan Helen (hogan leol)
Hefyd Gwelyau Haul

**STEPHEN
JONES**



**TREFNYDD
ANGLADDAU**

**Hefyd ymgymryd
â gwaith cerrig beddi:
adnewyddu neu o'r newydd**

Gweithdy Pen-y-bryn
Cefn-y-bryn, Bethesda

Ffôn: gweithdy 600455
gartref 602455
personol 07770 265976
Bangor 360001

Gwasanaeth personol ddydd a nos

Arbenigwr mewn lloriau coed caled



Arbenigwr mewn gosod a
selio lloriau coed caled,
adnewyddu lloriau
gwreiddiol a chyweirio
lloriau sydd wedi eu
difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

**AUR
CLOGAU**

Gostyngiad o
20%

Os nad mewn sêl eisoes



Siswrn Arian
*Trin Gwallt Merched,
dynion a Phlant*

Vivien, Amanda, Jenny a Nicola
GEMWAITH BO-WEN
GWASANAETH TYLLU CLUSTIAU
☎601888

C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Croeso i gyfrifon masnachol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794
Siop yn
Llanrwst 01492 640794

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni

GAIR O'R DOSBARTH

Ysgol Dyffryn Ogwen



Gŵyl Ffilm Pics 2011

Mae Josh Williams a Cai Dickinson Bl 9 wedi ennill gwobr mewn cystadleuaeth animeiddio yng Ngŵyl Ffilm Pics 2011 yn y Galeri Caernarfon! Da iawn hogiau!

Eisteddfod Cylch yr Urdd

Bu'r ysgol yn llwyddiannus iawn yn Eisteddfod Cylch yr Urdd Bangor/Ogwen gyda llawer iawn o'r cystaddeuwr yn mynd ymlaen i'r Eisteddfod Sir ar Fawrth 31ain yn Ysgol Brynrefail, Llanrug :

Unawd Merched Blwyddyn 7 - 9	1af -	Elen Wyn
Deuawd Blwyddyn 7 - 9	1af -	Cadi Rhys ac Elin Cain
	2il -	Elen Wyn a Buddug Roberts
Parti Merched Blwyddyn 7 - 9	1af -	Dyffryn Ogwen
Côr Blwyddyn 7-9	1af -	Dyffryn Ogwen
Grŵp Llefaru Blwyddyn 7-9	1af -	Dyffryn Ogwen
Ymgom Blwyddyn 7-9	1af -	Dyffryn Ogwen

Llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion i gyd.



Côr Blwyddyn 7 i 9

Gweithdy Genethod Blwyddyn 9

Ar Ddydd Gwener, 24ain o Chwefror fe gafodd genethod blwyddyn 9 fynychu diwrnod a drefnwyd gan Llwyddo'n Lleol sy'n hybu gwaith a gynigir yn lleol i bobl ifanc. Yr enw a roddwyd ar y gweithgaredd oedd 'Diwrnod Sector Economi Werdd'.

Yn gyntaf, cafodd y genod fynd i ymweld â safle adeiladu sef ysgol newydd Yr Hendre yng Nghaernarfon. Mae'r adeilad am fod yn ecogyfeillgar a chafodd y genod roi eu hetiau caled i fynd rownd y safle i weld sut roedd y broses adeiladu yn gweithio a hefyd sut roedd yr adeilad wedi ei addasu i arbed yr amgylchedd.

Yna aeth y genod i Neuadd Goffa Mynydd Llandegai lle cawsant dreulio gweddill y diwrnod yn gwneud gweithgareddau'n seiliedig ar y hyn roedden nhw wedi ei weld.

Ysgol Tregarth

Ymweliad PC Dewi Thomas

Croesawyd PC Dewi Thomas i'r ysgol yn ystod y mis. Bu'n siarad â phlant yr ysgol am gadw'n saff. Dysgodd y plant ieuengaf am bwysigrwydd dysgu eu cyfeiriad a sut i ffonio'r gwasanaethau brys; dysgodd plant yr adran iau am ddulliau cadw eu hunain yn saff ar y rhyngwyd.

Ymweliad Esgob Bangor



Yn ddiweddar cafodd Ysgol Tregarth ymwelydd arbennig. Cawsom groesawu y Gwir Barchedig Andrew John, Esgob Bangor ynghyd â'r Parch. Robert Townsend atom. Daethant i ymuno â ni yn ein gwasanaeth boreol a chael cyfle i ymweld â'r dosbarthiadau i dreulio amser gyda'r disgyblion. Cafodd y plant gyfle i'w holi am ei waith a'i ffydd. Cafwyd bore difyr a buddiol yng nghwmni'r ddau.

Warden y Parc Cenedlaethol

Bu Warden Parc Cenedlaethol Eryri yn nosbarth Bl 5 a 6 i ymateb i'w cwestiynau a siarad am ei waith o ddydd i ddydd fel Warden. Dysgodd y plant lawer am y Parc ac am gyfrifoldebau warden.

Plas Henblas

Fel rhan o'n gwaith aeth plant y Dosbarth Derbyn ar ymweliad â Phlas Henblas i weld y Lili Wen Fach a'r Cennin Pedr. Cafodd pawb hwyl yn edrych ar siâp a lliwiau'r blodau, cerdded drwy'r mwd yn eu hesgidiau glaw, a theithio ar y bws!

Dŵr Cymru

Cawsom ymweliad gan Claire Parry o Dŵr Cymru yn ddiweddar. Daeth o gwmpas y dosbarthiadau i gynnal gweithgareddau diddorol a chynnal gwasanaeth i ddangos i blant yr ysgol sut mae dŵr yn cyrraedd ein cartrefi. Gwelodd y plant faint o ddŵr sy'n cael ei wastraffu bob dydd a dysgu am ddulliau i arbed dŵr.

Dydd Gŵyl Dewei

Dathlwyd Dydd Gŵyl Dewi gyda gwasanaeth arbennig yn yr ysgol. Gwisgodd pawb ddrill coch a gwleda ar gacennau cri. Paratôdd plant Dosbarth Idwal gawl cennin blasus dros ben. Anfonwyd ffilm o'r plant yn canu'r anthem genedlaethol i'n hysgolion partner yn Ghana a Japan.

Marchnad Cynnyrch Lleol Bethesda

Bu Mareid Gwyn-Jones yn brysur iawn fore Sadwrn yn festri Jeriwsalem yn gwerthu darnau gwehyddu Kente gan ddisgyblion a chrefftwyr lleol o ardal ein hysgolion partner yn Ghana. Roedd gwerthiant y cynnyrch i gyd yn cyfrannu tuag at ddatblygu llyfrgell y ddwy ysgol. Hoffai Mrs Gwyn-Jones ddiolch o galon i drigolion Bethesda a'r cyffiniau am eu cefnogaeth a'u diddordeb y bore hwnnw. Casglwyd £60 tuag at y fenter. Bydd disgyblion Tregarth yn gwerthu eto yn y farchnad ar ôl y Pasg.

Ysgol Rhiwlas

Diwrnod Cenedlaethol y Llyfrgell

Bu bwrwm a llawer o chwerthin yn yr ysgol un bore Sadwrn gyda rhieni a phlant yn brysur yn tacluso'r llyfrgell ar gyfer 'Diwrnod Cenedlaethol y Llyfrgell.' Mae'r llyfrgell wedi ei gweddnewid erbyn hyn ac yn bleser i'w defnyddio. Diolch o galon i'n rhieni am eu brwdfrydedd ac am weithio mor galed.

Eisteddfod yr Urdd

Mae'r plant wrthi'n brysur yn paratoi gwaith celf, yn ymarfer canu ac adrodd yn ddyddiol. Daliwch ati, blant. Diolch i bawb am eu hyfforddi yn yr ysgol a thu allan i oriau'r ysgol.



Gwersi Arddangos

Bu cyfle i'n rhieni ddod i weld gwersi dawns yn yr ysgol. Gweithiodd y plant yn ardderchog, gyda'r Babanod yn gwneud dawns coginio teisen, a'r Adran Iau yn cynllunio dawns rydd. Roedd wynebaw'r rhieni yn bictiwr wrth i'r plant droelli, neidio, teithio a rholio. Da iawn chi, blant, am ymddwyn mor dda a gweithio mor galed.

Myfyrwraig

Croeso mawr i Amy Roberts sydd wedi dod atom o'r Brifysgol ar brofiad gwaith.

Nofio

Braf ydy clywed canmoliaeth gan hyfforddwyr Pwll Nofio Bangor i ymdrechion y plant. Mae'r gwersi wedi bod yn llwyddiant mawr.

Bygiau Baco

Dwy sioe wych. Fe aeth plant yr Adran Iau i Ysgol Bethel i weld y consuriwr Howard Hughes yn cyflwyno sioe Bygiau Baco. Bu chwerthin mawr ond roedd y plant i gyd wedi deall y neges bwysig. Galwodd

Paid Cyffwrdd, Dwêd

Mark i'r ysgol i gyflwyno neges Paid Cyffwrdd, Dweud. Hwyl a sbri, ond eto gyda neges bwysig. Braf oedd gweld y plant yn gwrando'n astud ac yn holi'n aeddfed ar ddiwedd y sioe.

Themau

Mae pawb wrthi'n brysur gyda themâu'r tymor – y Babanod yn dysgu am 'Ddathliadau' a'r Adran Iau yn dysgu am 'Y Chwarel.' Os oes gan unrhyw ddarllenwydd wybodaeth bellach am y themâu, cysylltwch â'r ysgol.

Bagiau Darllen

Llongyfarchiadau mawr i'r plant a lwyddodd i gael tystysgrif cynllun bagiau darllen. Diolch i'r teuluoedd am wrando ar eu plant yn darllen yn rheolaidd i sicrhau llwyddiant y cynllun.

Cyngor Ysgol

Braf yw gweld y plant yn cymryd eu cyfrifoldebau mor ddifrifol. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae'r cyfarfodydd yn cael eu rhedeg yn drefnus gyda phob aelod yn cael gwrandawriad. Daliwch ati.

Brysiwch wella

Brysiwch wella Mrs Davies ac Anti Shan. Dymuniadau gorau i chi'ch dwy.

Ysgol Bodfeurig

Dathlu Diwrnod y Llyfr

Mae plant yr ysgol wrth eu boddau yn darllen llyfrau o bob math, felly roedd pawb wrth eu boddau pan ddaeth hi'n amser dathlu Diwrnod y Llyfr eleni. Daeth pawb i'r ysgol wedi gwisgo fel eu hoff gymeriad o lyfr a daethant â'u hoff lyfr gyda nhw hefyd. Roedd yn rhyfedd iawn gweld môr- ladron, Harry Potter, gwrrachod, tywysogesau a hyd yn oed pengwin yn crwydro o amgylch yr ysgol!



Dysgu am y gorffennol

Yn ystod y tymor mae plant yr Adran Iau wedi bod yn dysgu am yr ardal leol a sut mae wedi newid dros y ganrif ddiwethaf. Fel rhan o'r gwaith cawsom fynd i'r Neuadd Goffa yn Mynydd i siarad gydag aelodau'r Clwb Hanes. Dyma oedd gan Meical i'w ddweud am y diwrnod:

Ddoe roeddem yn llawn cyffro oherwydd yn y pwn roeddem yn mynd i'r Neuadd Goffa i gyfarfod y Clwb Hanes. Ar ôl cyrraedd cawsom weld llawer o luniau hen a diddorol. Ar ôl ychydig cawsom gyfweld aelodau o'r Clwb Hanes ac roedd yn braf dysgu llawer o bethau diddorol! Ar ddiwedd y pwn cawsom ddiod a bisged a stori dda gan Mr Hughes. Ar ôl hynny roedd gennym ddigon o wybodaeth i lenwi llyfr! Roedd yn amser mynd yn ôl i'r ysgol, ac roedd pawb yn edrych ymlaen i edrych ar yr holl wybodaeth a dysgu mwy am Mynydd Llandygái ers talwm." Hoffai pawb ddiolch yn fawr i aelodau'r Clwb am roi eu hamser i ddysgu llawer i'r plant. Diolch yn fawr iawn!



Pawb wrthi'n brysur yn sgwrsio.



Roedd aelodau'r Clwb wedi casglu llawer o wybodaeth ddiddorol.

Deunydd y mis nesaf i'r Golygydd erbyn dydd Mercher 4 Ebrill os gwelwch yn dda

Golygydd mis Ebrill fydd Derfel Roberts, Llys Artro, 84 Ffordd Carneddi, Bethesda, LL57 3SG. 01248 600965 hylaw@btinternet.com

Ysgol Llanllechid

Cofion

Anfonw'n ein cofion at Mrs Mona MacDonald sy'n dal i wella a chryfhau. Diolch i Mrs Shirley Hartleb am ei gwaith yn cyflenwi yn ei habsenoldeb. Dymuniadau gorau hefyd i Awen. Gobeithiwn dy fod yn teimlo'n llawer gwell erbyn hyn ar ôl y ddamwain.

Gŵyl Ddewi



Gwen a Grace yn mwynhau cacennau cri

Fore Iau, y cyntaf o fis Mawrth, roedd neuadd yr ysgol yn orlawn o rieni a chyfeillion ar gyfer ein Cyngerdd Gŵyl Ddewi. Chafodd neb ei siomi! Aeth pob un o ddsbarthiadau'r ysgol ar y llwyfan i berfformio sioeau a chyflwyniadau ac roedd yn bleser gwranddo ar yr holl ganeuon gwerin, hwiangerddi, englynion, hen benillion, emynau a'r storïau am gewri. Roedd pob un o'r disgyblion wedi dysgu Hen Wlad fy Nhadau, ac fe'i canwyd gydag arddeliad! Ar ôl y cyngerdd bu'r disgyblion wrthi'n ddiwyd yn gwneud cacennau cri.



Cerys Elen, arweinydd y côr, gyda Leni ac Ella

Diwrnod iach

Cawsom, fel ysgol, 'Ddiwrnod Iach' yn ddiweddar, pan oedd pob dosbarth yn canolbwyntio ar weithgareddau yn ymwneud â 'Chadw'n iach'. Bu'r disgyblion yn blasu bwydydd iach, gwneud diodydd iachus, gweithgareddau ffitrwydd, gwranddo ar guriad y galon, yn ogystal â dyfalu pa fath o fwyd y mae George North yn ei fwyta!

Carys Ofalus

Daeth cath fawr o'r enw Carys Ofalus draw i ddsbarthiadau Blynnyddoedd 1 a 2 i'n hatgoffa o reolau'r ffordd fawr. Roedd yn llawer o hwyl bod yng nghwmni Carys, ond roedd pawb wedi dysgu gwersi pwysig hefyd!

Oriel Môn

Aeth disgyblion Blwyddyn 2 i Oriel Môn yn Llangefni yn ddiweddar i gymryd rhan mewn gweithdy Celf. Bu'r plant yn gwneud pypedau a murluniau lliwgar o gewri yng nghwmni'r artist Anwen Burgess o Fethesda ac roedd pawb wedi mwynhau'r diwrnod yn fawr!

Masnach Deg

Fel rhan o'n dathliadau Masnach Deg daeth Mrunal Lahankar o India i'r ysgol i'n dysgu am gotwm a chynnyrch Masnach Deg. Fel yr ysgol Masnach Deg gyntaf yng Ngwynedd, ac fel disgynyddion chwarelwyr Penrhyn, mae disgyblion Ysgol Llanllechid yn parhau i hyrwyddo hawl eraill am gyflog teg ac mai mewn undeb a chydweithrediad mae nerth. Roedd y disgyblion wedi cael eu gwefreiddio gyda'r ymweliad, a Mrunal yn rhyfeddu at ehangder eu cwestiynau am Fasnach Deg ac am India.



O'r chwith: Ar y naill ben mae Elen Jones a Tristan Humphreys o Masnach Deg Cymru, ac yn y canol o'r chwith mae Ella Baker, Reece Morgan, Mrunal Lahankar, masnachwr cotwm Masnach Deg o India, Eeve Starr a Maisy Lovatt.

Crempog

Cafwyd hwyl a sbri yn creu myrdd o gremfogau!

Dawnsio i'r rhieni

Bu disgyblion Bl 1 a 2 yn diddanu'r rhieni yn ddiweddar drwy ddawnsio dawns greadigol iddynt ar ôl ysgol. Diolch i Ms Angharad Thomas.

Hoci

Llongyfarchiadau i'r disgyblion canlynol ar gael eu dewis i gynrychioli'r ysgol mewn cystadleuaeth Hoci yn ddiweddar: Dion, Cai, Evie, Molly, Bethan, Gethin, Morgan a Cameron. Diolch i Mr Stephen Jones am eu hyfforddi.

Archfarchnad

Bu disgyblion dosbarth Mrs Wilson yng Nghaernarfon yn ddiweddar yn gweld rhyfeddodau. Yn ystod yr ymweliad aethant i archfarchnad fawr i ddysgu am yr holl ffrwythau a llysiau gwahanol oedd yno.

Marathon Llundain



Llawer o ddiolch i chi sydd eisoes wedi cefnogi Mr Huw E Jones a Mr Stephen Jones a fydd yn rhedeg ym Marathon Llundain ym mis Ebrill. Fe gofiwch fod Mr H.E. Jones yn codi arian tuag at Ymchwil Llid yr Ymennydd, a Mr Stephen Jones yn codi arian tuag at Get Kids Going. Byddwn yn cynnal diwrnod 'Marathon Llundain' yn yr ysgol yn fuan.

Ambiwllans Awyr Cymru

Bellach, mae Ambiwllans Awyr Cymru ychydig dros 10 mlwydd oed, ac mae'n olygfa gyffredin yn yr awyr uwchben Cymru, yn gwneud tua 1,500 o deithiau y flwyddyn, a phob un o'r teithiau yn costio tua £1.500 yr un. Mae hynny'n golygu fod yn rhaid i'r gwasanaeth godi £6 miliwn y flwyddyn, heb gymorth y llywodraeth na'r loteri i'w gynnal ei hun, felly, mae'r Ambiwllans Awyr yn dibynnu'n llwyr ar haelioni'r cyhoedd yn unig.

Mae'r gwasanaeth nawr yn chwilio am wirfoddolwyr yn ardaloedd Ynys Môn a Bangor, felly os ydych chi'n teimlo y gallech chi helpu'r gwasanaeth sydd mor hanfodol i unrhyw gymdeithas wledig, cysylltwch os gwelwch yn dda, efó swyddfa Caernarfon ar 01286 875050.

Ysgol Llandygái

Trip i'r Amgueddfa

Aeth Dosbarth Enfys am dro mewn bws i Amgueddfa Lechi Llanberis i gyfarfod Anti Margiad. Diddorol oedd cymharu ei harferion golchi hi â rhai heddiw. Roedd arogl hyfryd ar y bws ar y ffordd yn ôl i'r ysgol gan fod pob plentyn wedi cael gwneud sebon fel anrheg i ddod adref. Diolch i Anti Barbara am ei chymorth a'i gofal dros y plant.

Dathlu

Bu Dosbarth Gwawr a Heulwen yn dathlu Blwyddyn Newydd Tseineiaidd – yn edrych ar wisg, yn coginio a gwneud addurniadau lliwgar.

Paid Cyffwrdd - Dwed

Daeth Marc atom unwaith eto gyda'i sioe hud a lledrith a chawsom gyflwyniad llawn hwyl a chwerthin – hyn yn ogystal â dysgu neges bwysig am beryglon moddion, cyffuriau ac alcohol.

Trip i'r Mynydd Gwefru

Aeth Bl 3 a 4 i'r Mynydd Gwefru yn ddiweddar i edrych sut mae trydan yn cael ei gynhyrchu. Roeddent wedi dysgu llawer wrth wrando ar gyflwyniadau hynod ddiddorol. Mae'r plant yn adeiladu ar y profiad yma drwy ymwneud ag amrywiol weithgareddau pellach yn yr ystafell ddosbarth.

Dydd Gŵyl Dewi Sant

Bu'r disgyblion yn dathlu'r diwrnod drwy wisgo gwisg Gymreig a gwrando ar blant Dosbarth Enfys yn cyflwyno gwasanaeth byr am Ddewi Sant. Yn dilyn y gwasanaeth cawsom berfformiad gan barti canu fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Gylch yr Urdd.

Cafodd y plant eu cyflwyno i Celt Cymro - ffrind newydd i'r ysgol. Bydd hyn yn rhan o sefydlu siarter iaith yn yr ysgol - hyn yn rhan bwysig o weithredu yr CFfactor sef cynllun newydd Gwynedd i hybu plant i siarad Cymraeg y tu allan i furiau'r dosbarth. Pob dymuniad da i Celt Cymro.

Dathlu Diwrnod y Llyfr

Mae pob dosbarth wedi bod yn creu llyfrau fel rhan o ddatliadau Diwrnod y Llyfr. Y cam nesaf fydd i'r plant hynaf ddarllen eu gwaith i blant y Babanod . Awduron y dyfodol yn sicr!

Eisteddfod Gylch yr Urdd

Pob dymuniad da i'r parti canu ac i nifer o unigolion fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod. Rydym yn hynod o falch ohonoch i gyd.

Ysgol Werdd

Daeth Claire Jones atom ar ran Dŵr Cymru i roi cyflwyniad ar sut i arbed dŵr. Cafwyd cyflwyniad bywiog ac addysgiadol dros ben. Gwnaethpwyd arolwg dŵr ar ôl y cyflwyniad, a bydd y gwaith o fonitro yn parhau yn y misoedd nesaf. Diolch yn fawr iawn i chi.



Rhai o'r plant yn helpu gyda chyflwyniad Claire Jones.

Y BWTHYN TE

pen y ceunant isaf

LLWYBR YR WYDDFA LLANBERIS



PEN Y CEUNANT ISAF-
 BWTHYN A ADELADWYD AR
 WAELODION LLWYBR YR WYDDFA
 (O LLANBERIS)
 YN YSTOD Y 18oD. GANRIF
 CEWCH GROESO ARBENNIG
 YMA, YN OGYSTAL A
 GOLYGFYDOD GIWYCH DROS
 LLYN PADARN A DYFFRYN PERIS

AR AGOR 9am - 9pm. BOB DYDD DRWY'R FLWYDDYD
 DIODYDDO GYDA SCON NEU DEISEN (Dim prydau o gwbl!)
 MAN PARCIO O FLAEN Y BWTHYN • YN ADDAS I'R ANABL

Oriel arbennig o luniau Syr Kyffin Williams
 a llu o arlunwyr Cymreig eraill

(01286) 872606 www.ceunant.co.uk
steven@ceunant.co.uk

Rydym yn hapus iawn i dderbyn Cleifion Newydd



Dr. Dewi Williams Dr. Robert Jones



DEINTYDDFA
GWYNFRYN
 DENTAL PRACTICE

Canolfan Gosmetig a Mewnblaniadau
BANGOR

Mae Deintyddfa Gwynfryn a Chanolfan Gosmetig a Mewnblaniadau Bangor yn falch iawn o dderbyn cleifion newydd. Yn Neintyddfa Gwynfryn rydym yn cynnig deintyddiaeth gyffredinol ac ataliol a'n nod yw darparu gofal deintyddol eithriadol i bob un o'n cleifion er mwyn sicrhau fod eich ceg yn iach am oes.

Fel estyniad o'r ddeintyddiaeth gyffredinol ac ataliol sydd ar gael yn Neintyddfa Gwynfryn, mae Canolfan Gosmetig a Mewnblaniadau Bangor wedi ymrwmo i ddarparu'r diweddaraf i chi ym maes Deintyddiaeth Gosmetig. Os yw eich dannedd wedi torri, yn wahanedig, yn gam neu wedi newid lliw neu os mai dim ond eisiau gwên hardd, ddeniadol ydych chi, gallwn ni roi'r wên a ddymunwch i chi. Gall ein deintyddion cosmetig tra chymwys eich helpu i benderfynu sut i wella eich gwên, gan eich galluogi i deimlo'n well am y modd yr ydych chi'n edrych.

APWYNTIADAU BRYD AR GAEL AR YR UN DIWRNOD

MAE EIN STAFF YN DDWYIEITHOG

CYFLEUSTERAU CREDYD DI-LOG AR GAEL PAN WNEIR CAIS.
 YN AMODOL AR STATWS, BYDD TELERAU AC AMODAU'N BERTHNASOL.

- GWEDDNEWID GWÊN
- GWYNNU DANNEDD
- ARGAENAU
- MEWNBLANIADAU
- FFRAMIAU DANNEDD CLIR INVISALIGN®
- LLENWADAU GWYN
- CORONI A PHONTIO
- DANNEDD GOSOD COSMETIG
- TAWELYDDU
- TRINIAETHAU ESTHETEG I'R WYNEB

DEINTYDDFA GWYNFRYN, FFORDD CAERGYBI, BANGOR, GWYNEDD, LL57 2EE

FFÔN: 01248 372 888 WWW.BANGORDENTISTS.CO.UK

Cerdded + Tyfu Locsyn + Gwaith Caled = £5,000+

Llongyfarchiadau i drefnwyr ymgyrch codi arian lwyddiannus iawn, sef Mrs Diane Lock (o Fangor) a Mrs Phyllis Parry (o Fynydd Llandygái), am godi dros £5,000 hyd yma at achos teilwng, sef Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd. Gwnaethant hyn, gyda help teulu a ffrindiau, drwy gynnal taith gerdded ym mis Tachwedd yr holl ffordd o Lyn Ogwen i'r pier ym Mangor (rhyw 13 milltir). Trefnwyd y daith gerdded ar ran Mr Geraint Parry, Rheolwr "Logistics" yn Chwarel y Penrhyn, sef gŵr Mrs Phyllis Parry. Mae Geraint yn dioddef o'r cancr ac yn derbyn triniaeth yn Ward Alaw Ysbyty Gwynedd.



Mae'r trefnwyr hefyd wedi bod yn brysur yn trefnu raffl, a chystadleuaeth Enwi'r Tedi, a chafwyd cyfraniad hael o £500 gan Chwarel Penrhyn.

Mae pob cyfraniad yn mynd i Ward Alaw Ysbyty Gwynedd - nid i helpu Geraint yn unig, ond er budd pawb sydd wedi, ac yn cael, eu trin ar y Ward. Mae'r arian, hefyd, yn ffordd o ddweud diolch yn fawr iawn wrth y staff sydd yn rhoi cymaint i mewn i'w gwaith wrth edrych ar ôl y cleifion a'u teuluoedd sydd wedi cael eu heffeithio.

Diolch yn fawr iawn i bawb ddaru gymryd rhan yn y daith gerdded ac i Mr Gareth Hughes, o Fethesda, sydd yn athro Daearyddiaeth yn Ysgol y Moelwyn, Blaenau Ffestiniog, am dyfu ei farf at achos mor dda. Da iawn

ti Gar!! Mae eich cefnogaeth a'ch holl gyfraniadau yn cael ei werthfawrogi. Diolch o galon!



Gweithdy Clera



Patrick Rimes, Gerlan (o'r band Calan) yn arwain dosbarth mewn gweithdy Clera ym Mangor.

Mae CLERA (Cymdeithas Offerynnau Traddodiadol Cymru) ar fin cyraedd yr ardal! Dystiwch y delyn, tiwniwch eich ffliwt a thynnwch y ffidil o'r to!

Mae Clera wrthi'n trefnu rhaglen uchelgeisiol o weithdai gwerin dan yr enw Sesiwn Dros Gymru. Y bwriad yw cynnal 40 o weithdai offerynnol (hanner diwrnod) dros gyfnod o flwyddyn, mewn 4 ardal wahanol (gogledd-ddwyrain / gogledd-orllewin / de-orllewin / de-ddwyrain), sef 10 gweithdy i bob ardal.

Lleoliad cyfres y gwanwyn yn yr ardal hon yw Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis. Dyddiadau'r gweithdai yw: Dydd Sul, 25 Mawrth 2012 am 12pm, Dydd Sul, 22 Ebrill 2012 am 1pm, a Dydd Sadwrn, 19 Mai 2012 am 1pm.


Bydd gweithdai hefyd yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych ar Ddydd Sadwrn, 31 Mawrth 2012, a Dydd Sadwrn, 12 Mai 2012, ill dau am 1pm.

Bydd 3 dosbarth ym mhob gweithdy, ar gyfer gwahanol lefelau o allu a phrofiad cerddorol, a bydd niferoedd wedi eu cyfyngu i 10 mewn dosbarth. Bydd dosbarth lefel sylfaen arbennig yn Llanberis, gyda Stephen Rees (Ar Log, Crasdant) yn canolbwyntio ar ddysgu sut i chwarae alawon Cymreig o'r glust - addas iawn i offerynwyr clasurol sy'n newydd sbon i gerddoriaeth draddodiadol.

Y gost ar gyfer mynychu yw £7.50 y gweithdy, £12 am docyn teulu a £5 gostyngiadau. Dewch am jig!

Am fanylion pellach neu i gofrestru cysylltwch â:
Catrin Meirion / Sesiwn Dros Gymru
(01286) 831344 (01286) 831344
catrin@sesiwn.org.uk
<http://www.sesiwn.org.uk> / <http://www.clera.org>

Ras Moelyci



Chwefror 25ain.
Daeth 150 o redwyr i gystadlu, - y nifer fwyaf erioed.
Y dyn cyntaf adref oedd Richard Roberts o Redwyr Eryri, a hynny mewn 35 munud a 10 eiliad, a'r ferch gyntaf oedd Anna Bartlett mewn amser o 42 munud 39 eiliad.

Beth sydd ymlaen yn y Dyffryn?

NEUADD OGWEN,
BETHESDA

BOREAU COFFI



17 Mawrth: Eisteddfod Dyffryn Ogwen
24 Mawrth: Llais Ogwan
31 Mawrth: Samariaid
7 Ebrill: Eisteddfod yr Urdd Eryri 2012
14 Ebrill: Cyfeillion Ysbyty Gwynedd
21 Ebrill: Ymchwil Canser

(Bob bore Sadwrn am 10.00 o'r gloch)

NEUADD OGWEN
BETHESDA

GYRFA CHWIST

27 Mawrth
10 a 24 Ebrill

am 7 o'r gloch

Dewch i fwynhau nosweithiau difyr

NEUADD OGWEN BETHESDA

Bore Coffi

Llais Ogwan

Bore Sadwrn, 24 Mawrth

10.00 – 12.00

Mynediad 50c

NEUADD OGWEN BETHESDA

Bore Coffi

Cyfeillion Ysbyty Gwynedd

Bore Sadwrn, 14 Ebrill

10.00 – 12.00

Mynediad 50c

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

Paned a Sgwrs

Caffi Fitzpatrick 11.00 – 12.00

Dydd Sadwrn cyntaf pob mis

Peint a Sgwrs

Douglas Arms Bethesda

20.00 – 21.00

Trydydd Nos Lun pob mis

Eisteddfod yr Urdd
Eryri, 04/06 – 09/06



HEATHER JONES

A THALENTAU LLEOL

YN NANT GWRTHEYRN

NOS SADWRN, MAWRTH 31ain


AM 7.30 YR HWYR

MYNEDIAD

OEDOLION: £5.00 PLANT: £3.00

ELW AT BWYLLGOR DYSGWYR YR URDD 2012

ARCHEBWCH DOCYNNAU
YMLAEN LLAW:
01248 383928 (oriau swyddfa)
learnwymraeg@bangor.ac.uk



Ebrill 4-8 Neuadd Ogwen, Bethesda

4ydd Cwrs Technoleg Cerdd 16+ yn dechrau. Am ddim!

5ed **Seperado** (ffilm Gruff Rhys) a gwystai arbennig iawn

6ed **Cowbois Rhos Botwnnog** a Georgia Ruth, Mr Huw

7ed **9Bach a Heather Jones**

8ed **Elin Fflur a Casi Wyn**

Drws am 7pm. Bar a bwyd ysgain argael. Dj's
To cyn £5 o Siop Kath, Pesda neu £7 ar y drws

HYSBYSEBU YN RHAD AC AM DDIM YN Y LLAIS

i gymdeithasau a mudiadau yn
Nyffryn Ogwen
Hyd at y maint yma
(3" (750mm) X 1 golofn)

**Cysylltwch â'r Trefnydd
Hysbysebion**

Neville Hughes (01248) 600853

Cefnogwch weithgareddau'r
Dyffryn. Cysylltwch â Neville
Hughes i roi gwybod am eich
gweithgareddau fel y gallwn eu
gosod yn Nyddiadur y Dyffryn (ar
dudalen 2). A chofiwch y gallwch
hysbysebu eich gweithgareddau
AM DDIM yn y Llais.



14 Ebrill
Marchnad Cynnyrch Lleol

Llys Dafydd

10.00 – 2.00

www.facebook.com/marchnad-cynnyrch-lleol-ogwen-local-produce-market

S4/C



'Sylla Eirlys yn
bryderus ar sgrin
ei chyfrifadur.'

Mae Sain Ddisgrifio ar
gael yn Gymraeg ar nifer
o raglenni S4C. Mae
disgrifadau o symudiadau
a mynegiant yn rhoi bywyd
i raglenni ar gyfer pobl sy'n
cael trafferth gweld.

Am fwy o wybodaeth
am ein gwasanaeth Sain
Ddisgrifio cysylltwch â
Gwifren Gwylwyr ar
0870 600 4141 neu ewch i
s4c.co.uk.